# Cyngor Sir Penfro
# Pembrokeshire County Council

## Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun

## Mabwysiadwyd Tachwedd 2016

**Dr Steven Jones B.A.(Anrh),D.M.S., M.B.A., Ph.D., M.C.I.M.**
**CYFARWYDDWR DATBLYGU**

**Byrfoddau**

| | |
|---|---|
| AG | Ardal Gadwraeth |
| CDL | Cronfa Dreftadaeth y Loteri |
| ARh | Adeilad Rhestredig |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| CSP | Cyngor Sir Penfro |
| CDAH | Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol |
| NCT | Nodyn Cyngor Technegol - Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru |
| GCC | Gorchymyn Cadw Coed |
| DeddfCG&Th | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........ 6
Rhan 1: Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth ........ 9

Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun ........ 9
1.1 Cyflwyniad ........ 9
1.2 Cefndir ........ 10
1.3 Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun ........ 11
1.4 Pwrpas a Chwmpas yr Arfarniad ........ 12
1.5 Methodoleg ........ 12

Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi Cynllunio ........ 13
2.1 Deddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cenedlaethol ........ 13
2.2 Polisi Cynllunio a Chanllawiau Lleol ........ 15
2.3 Strategaeth Gorfodi ........ 16

Diffinio Diddordeb Arbennig ........ 17
Asesu Diddordeb Arbennig ........ 17
4.1 Lleoliad a Gosodiad ........ 17
4.2 Datblygiad Hanesyddol ac Archeoleg: Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol yr Ardal ........ 18
4.3 Dadansoddiad Gofodol ........ 22
4.4 Dadansoddiad Cymeriad ........ 30
Ardal Nodwedd 1: Yr Harbwr ........ 30
Ardal Nodwedd 2: Heol Trefdraeth ........ 36
Ardal Cymeriad 3: Glyn-y-Mel Road ........ 41
4.5 Adeiladau'r Ardal Gadwraeth ........ 46
4.6 Crynodeb o Gymeriad yr Ardal Gadwraeth ........ 51

5. Adolygiad Ffiniau ac Argymhellion ........ 52
6. Crynodeb o'r Materion dan sylw ........ 54
7. Cynigion Rheoli ........ 55
8. Monitro ........ 58

Rhan 2: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun ............................................... 60

1. Crynodeb o ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth .................................................. 60

Adnabod Materion Cadwraeth ........................................................................60

1.1 Amodau cyffredinol (Dadansoddiad SWOT) ................................................ 60

1.2 Materion cadarnhaol ac asedau ................................................................... 62

1.3 Materion negyddol a phroblemau.................................................................. 63

2. Canllawiau Polisi ac Egwyddorion Dylunio ........................................................64

2.1 Egwyddorion Dylunio ..................................................................................... 64

2.2 Cyd-destun Datblygiad yr Ardal Gadwraeth ................................................ 64

2.3 Polisi datblygu ac egwyddorion dylunio Ardal Gadwraeth ............................. 65

2.4 Canllawiau dylunio er mwyn gwella adeiladau presennol ............................. 65

2.5 Polisïau ar gyfer datblygiad newydd o fewn ardaloedd treftadaeth ................ 72

3. Canllawiau penodol ar gyfer adeiladau, safleoedd arwyddocaol a thir y cyhoedd 73

3.1 Dyluniad tir y cyhoedd...................................................................................... 73

4. Argymhellion Rheoli ..........................................................................................74

4.1 Rhestru lleol yn yr Ardal Gadwraeth ............................................................ 74

4.2 Ailasesu ffiniau'r Ardal Gadwraeth ............................................................... 75

4.3 Cyfarwyddyd Erthygl 4 a Datblygiad a Ganiateir.......................................... 75

4.4 Monitro a Gorfodi:........................................................................................... 77

4.5 Deall Cadwraeth ............................................................................................ 77

4.6 Anghenion Adnoddau ...................................................................................... 77

4.7 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ................................................................... 78

4.8 Cynaliadwyedd................................................................................................. 78

5. Rhaglen Weithredu ..........................................................................................80

5.1 Adnoddau ar gyfer gweithredu yn yr Ardal Gadwraeth .................................. 80

5.2 Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu ................................................................... 80

Atodiad 1 Mapiau Ardal Gadwraeth 2016 ............................... **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad 2: Gwybodaeth ddefnyddiol ...................................... **Error! Bookmark not defined.**

# Crynodeb Gweithredol

i Mae'r Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth a’r Cynllun Rheoli hwn wedi’u paratoi a’u cyfuno er mwyn diffinio cymeriad arbennig Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun, er mwyn helpu i gadw a gwella ei chymeriad, gan osod sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cynaliadwy i’r dyfodol.

ii Yn Rhan 1 ceir y Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth, ac yn Rhan 2 ceir y Cynllun Rheoli, y cynigion a'r dulliau o weithredu a threfniadau ar gyfer monitro ac adolygu’r Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli.

iii Mae'r ddogfen hon yn ategu Cynllun Datblygu Lleol Sir Penfro (CDLl) 2013-2021, a bydd yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer unrhyw Gynllun Datblygu a fabwysiedir ar ôl hynny, o safbwynt amddiffyn a gwella'r amgylchedd hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'n ystyriaeth berthnasol ar gyfer penderfyniadau cynllunio a cheisiadau adeiladau rhestredig ynghyd â’r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol.

**Rhoddir cyd-destun polisi i’r gwerthusiad gan**

• **Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96** (para 20) yn datgan mai ansawdd lle ddylai fod yn brif ystyriaeth wrth nodi, gwarchod a gwella Ardaloedd Cadwraeth. Mae hyn yn dibynnu ar fwy nag adeiladau unigol. Cydnabyddir y gall cymeriad arbennig lle ddeillio o nifer o ffactorau, gan gynnwys: grwpiad adeiladau; eu graddfa a'u perthynas â mannau awyr agored, manylion pensaernïol, ac yn y blaen.

• Mae **Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 8, 2016** (para 6.5.17) yn datgan os byddai unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â'r amcan o gadw neu wella cymeriad neu olwg Ardal Gadwraeth, neu ei lleoliad, bydd rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.

iiii Crynhoir isod yr elfennau allweddol sy'n cyfrannu at ddiddordeb arbennig a chymeriad Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun sydd angen eu diogelu a'u hymestyn.

• Hanes morwrol hir cynhenid sydd ynghlwm â sefydlu'r harbwr.
• Nodweddion naturiol y tirwedd arfordirol a thirffurfiau naturiol sydd wedi dylanwadu ar ffurf Cwm Abergwaun; y ffaith ei fod ar wahan oddi wrth ardal Tref Abergwaun.
• Adeiladau amlwg gyda chymeriad pensaernïol nodedig.
• Golygfeydd pwysig i mewn, allan o ac o fewn yr Ardal Gadwraeth.
• Cymysgedd amrywiol o arddull a math o adeiladu, gyda'r mwyafrif yn tarddu o’r 18fed a'r 19eg ganrif.
• Adeiladau a therasau Fictoraidd.
• Pier yr harbwr wedi’i restru, harbwr ac aber cysgodol.
• Adeiladau Rhestredig.

• Olion Chwarel hanesyddol, odyn galch a Melin Wlân
• Strydoedd cul.
• Morfa ddiarffordd i fyny'r afon o'r bont

**Materion allweddol**

v Mae nifer o faterion allweddol wedi’u nodi fel materion sy'n cael effaith negyddol ar natur yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn sail ar gyfer y Cynigion Rheoli a amlinellir yn Rhan 1 (Adran 7) o'r ddogfen hon ac sydd wedi'u crynhoi isod.

***Safleoedd ac adeiladau negyddol / niwtral***

vi Mae nifer o adeiladau 'negyddol' a safleoedd sy'n tynnu oddi wrth gymeriad a golwg arbennig yr Ardal Gadwraeth. Yn aml, nid yw datblygiadau mwy modern wedi cyfrannu llawer i gymeriad yr ardal, naill ai o safbwynt ei chadw na’i gwella.

***Colli manylion pensaernïol a mân addasiadau i adeiladau hanesyddol***

vii Mae'r mwyafrif o’r adeiladau sydd heb ei rhestru - a llawer o'r rhai rhestredig - yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u heffeithio'n andwyol gan iddynt fod wedi colli manylion pensaernïol a deunyddiau adeiladu gwreiddiol.

***Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau (Adeiladau mewn Perygl)***

viii Mae rhai o'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth yn dangos arwyddion o ddirywiad oherwydd diffyg cynnal a chadw ac mae angen monitro’u cyflwr a blaenoriaethu cyllid yn unol â hynny.

***Rheoli datblygiad newydd***

ix Mae llawer o ddatblygiadau modern nad ydynt yn cyd-fynd â chymeriad hanesyddol a golwg yr Ardal Gadwraeth.

***Ardaloedd Tir y Cyhoedd***

x Mae llawer o enghreifftiau lle mae ardaloedd cyhoeddus wedi cael eu cynllunio, eu hadeiladu a'u cynnal yn wael. Mae manylion hanesyddol gwreiddiol wedi cael eu dileu ac mae’r dulliau atgyweirio a’r deunyddiau newydd yn amhriodol neu'n anghydnaws i gryn raddau. Mae amlygrwydd yr holl barcio ceir ar hyd y strydoedd mewn rhannau o'r Ardal Gadwraeth yn cael effaith andwyol ar ei chymeriad.

***Ardaloedd agored/gwyrdd, tirlunio a rheoli coed***

xi Ychydig iawn, os o gwbl, o dirlunio sydd ar lawer o'r strydoedd ac ardaloedd o fewn yr Ardal Gadwraeth. Er gwaetha'r ffaith fod yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys cyfuniad o strydoedd hir, cul a chefngwlad, gall tirlunio addas gynnig cyfleoedd i wella nifer o'r mannau cyhoeddus a'r strydoedd drwy ychwanegu ansawdd a lliw a chynyddu bioamrywiaeth.

***Cyn Adeiladau Masnachol ac Adeiladau Masnachol presennol***

xii Mae adeiladau masnachol a gynlluniwyd mewn dull traddodiadol mewn perygl o ddirywio oherwydd gwaith cynnal a chadw gwael a phwysau i'w datblygu ar gyfer pwrpasau amgen.

**Rhan 2**: Mae'r **Cynllun Rheoli** yn nodi materion Ardaloedd Cadwraeth cyfredol ac yn gosod allan cynigion rheoli a threfniadau ar gyfer eu gweithredu, gyda'r camau canlynol wedi eu nodi ar gyfer gweithredu buan:

**Polisi a Strategaeth Cynllunio:**
• CSP i fabwysiadu Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun;

**Cyfranogiad y gymuned**:
• Hyfforddi a Datblygu Staff Cadwraeth;
• Cynyddu'r ymwybyddiaeth o gadwraeth;
• datblygu gwefan Cadwraeth CSP;
• Cyhoeddi Bwletin(au) Cadwraeth Abergwaun; a
• Chynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun i fod ar gael yn lleol.

**Mesurau cynllunio**:
• Sicrhau drafft terfynol o'r Rhestr Leol i fod yn sail wybodaeth i'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig;
• Gweithredu Strategaeth Adeiladau mewn Perygl ar gyfer yr Adeiladau Rhestredig hynny sydd mewn perygl neu'n fregus
• Nodi Ardaloedd Archeolegol Sensitif fel y bo'n briodol

**Fframwaith ar gyfer Safonau Dylunio***:*
• Paratoi rhaglen ar gyfer paratoi nodiadau cyfarwyddyd cynllunio ychwanegol ar faterion cadwraeth;
• Sicrhau bod cyfleoedd am fesurau gorfodi, a'u pwysigrwydd, yn cael eu deall a'u gweithredu ledled CSP;
• Hyrwyddo Nodiadau Canllawiau Cynllunio a 'Cynnal a Chadw!' Cadw ar y wefan
• Paratoi briffiau datblygu penodol ar gyfer safleoedd, lle bo hynny'n briodol

# Rhan 1: Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth

# Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun

**1.1 Cyflwyniad**

1.1.1. Mae Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun, a ddynodwyd yn 1976 ac a ddiwygiwyd yn 1992, yn cydnabod diddordeb pensaernïol a hanesyddol canol hanesyddol Cwm Abergwaun, sydd wedi datblygu o gwmpas ei leoliad strategol ar aber yr Afon Gwaun.

1.1.2 Diffinnir Ardaloedd Cadwraeth, a ddynodwyd o dan Adran 69 o Ddeddf Cynllunio (ARh & AC) 1990, fel ardaloedd "... *o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, sydd â chymeriad y mae'n ddymunol ei gadw neu wella*"[1] .

1.1.3 Gall amddiffyniad ychwanegol fod yn addas drwy'r defnydd o Gyfarwyddyd[2] ar gyfer rhan o'r Ardal Gadwraeth, a elwir yn Gyfarwyddyd Erthygl 4. Mae Cyfarwyddyd o'r fath yn dileu hawliau datblygu penodol  i newid neu ymestyn adeiladau penodol a thrwy hynny  felly amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol ymhellach.

1.1.4 Mae'r gwerthusiad hwn yn diffinio ac yn cofnodi cymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun, yn ystyried materion cyfredol, y cyd-destun statudol a pholisi cyfredol ac yn nodi cyfleoedd i wella a darparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a chyfranogiad y gymuned leol wrth ei weithredu. Mae'n bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, 'i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella'[3] ac, 'wrth wneud penderfyniad ar gais am ddatblygu ...... rhoddir sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno'[4], sydd yn rhoi sail gadarn ar gyfer asesu ceisiadau am ddatblygu a chynigion ar gyfer gwelliannau o fewn ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun.

[1] Deddf  Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

[2] A wnaed  dan Erthygl 4 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995

[3] Adran 71 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

[4] Adran 72 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

1.1.5 Rhoddir y cyd-destun statudol a pholisi ar gyfer y gwaith gan:

• Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990[5]

• Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 1995 (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

• Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8, 2016

• Cylchlythyr 61/96[6] a Chylchlythyr 1/98[7]

• Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro (CDLl) 2013-2021.[8]

## 1.2 Cefndir

1.21 Crëwyd Ardaloedd Cadwraeth gan Ddeddf Mwynderau Dinesig 1967 pryd y penderfynwyd nad yw rhestru adeiladau hanesyddol yn unigol yn ddigon i ddiogelu grwpiau o adeiladau, sydd, er nad ydynt wedi'u rhestru yn unigol yn cyfrannu at gymeriad y lle yn ei gyfanrwydd, a'u lleoliad. Sylweddolwyd hefyd bod y mannau rhwng adeiladau a choed hefyd yn elfennau pwysig. Penderfynwyd bod yr holl ardaloedd hyn i'w gwarchod a'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth.

1.2.2 Dylai dynodiad Ardal Gadwraeth gael ei hystyried fel y prif fodd o gydnabod, diogelu a gwella hunaniaeth mannau sydd â chymeriad arbennig. Dylai ansawdd y lle fod yn brif ystyriaeth wrth nodi Ardaloedd Cadwraeth er na ellir cael un fanyleb gyffredin ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth. Nid yw dynodiad Ardal Gadwraeth yn rhwystro newidiadau i adeiladau na'r ardal o'u cwmpas yn y dyfodol. Mae'n golygu, fodd bynnag, bod rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol, wrth ystyried ceisiadau cynllunio, gan gynnwys y rhai sydd y tu allan i Ardal Gadwraeth ond a fyddai'n effeithio ar ei lleoliad, roi ystyriaeth arbennig gref i'r ffaith a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn "cadw neu'n gwella cymeriad neu olwg yr Ardal Gadwraeth ".

[5] a ddisodlodd yr hen Ddeddf Mwynderau Dinesig 1967

[6] Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth

[7] Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

[8] Ar gyfer y Sir ac eithrio ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

1.2.3 Mae'r Ddeddf bellach wedi'i hymgorffori a'i ehangu i mewn i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990 sy'n rhoi sail statudol ar gyfer rheolaeth gynllunio o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i adolygu'u mannau dynodedig yn rheolaidd, i ddynodi ardaloedd newydd os yn briodol ac yn dilyn dynodiad, lunio a chyhoeddi cynigion diogelu a gwella, ac i ddefnyddio'u pwerau cynllunio ar gyfer diogelu a gwella.

1.2.4 Fel arfer, dynodir Ardal Gadwraeth ar sail asesiad manwl o gymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig yr ardal. Mae'r asesiadau hyn yn cael eu hadnabod fel Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth.

1.2.5 Mae Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth yn bwysig ar gyfer yr awdurdod lleol, ar gyfer datblygwyr a'r cyhoedd. Gellir eu defnyddio ar y cyd â pholisïau a chanllawiau cynllunio presennol; gallant gynorthwyo gyda rheolaeth barhaus Ardaloedd Cadwraeth; ffurfio sail ar gyfer rhaglenni gwella; a darparu sail gadarn, a ellir ei hamddiffyn ar apêl, ar gyfer polisïau cynllun lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu. Mae gan Werthusiadau hefyd ddefnydd fel dogfennau addysgol a dogfennau gwybodaeth ar gyfer y gymuned leol.

**1.3 Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun**

1.3.1 Mae gan Sir Penfro (ac eithrio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) 24 o Ardaloedd Cadwraeth, gydag un ohonynt yng Nghwm Abergwaun

1.3.2 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun gan yr hen Sir Benfro yn 1976. Mae dwy Ardal Gadwraeth yn Abergwaun, un yng Nghwm Abergwaun (yr adroddiad hwn), ac un yn Nhref Abergwaun (gweler adroddiad ar wahân).

1.3.3 Nid yw Ardaloedd Cadwraeth Abergwaun wedi cael eu hamddiffyn yn y gorffennol dan Gyfarwyddyd Erthygl 4. Byddai hyn yn dileu hawliau datblygu sydd eisoes yn bodoli, ac yn golygu bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer atgyweiriadau ac estyniadau, er mwyn sicrhau bod dulliau a deunyddiau adeiladau traddodiadol yn cael eu defnyddio. Byddai hyn yn fodd o atal erydiad a cholli manylion pensaernïol hanfodol sy'n rhoi statws 'ardal o ddiddordeb arbennig' i'r Ardal Gadwraeth. Ystyriwyd y posibilrwydd o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) yng Nghwm Abergwaun. Ceir

rhagor o wybodaeth am broses Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) yn Rhan 2 (adran 4.3) yr adroddiad hwn.

**1.4 Pwrpas a Chwmpas yr Arfarniad**

1.4.1 Wedi ei dynodiad yn 1976, cydnabuwyd Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun fel ardal o gymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig sydd angen ei chadw a'i gwella. Yn 1976 cyhoeddodd yr hen Gyngor Sir Benfro ddatganiad cymeriad ar gyfer yr Ardal Gadwraeth.

1.4.2 Diben yr astudiaeth hon yw cynnal gwerthusiad o gymeriad [9] yr Ardal Gadwraeth hon, fel rhan o raglen dreigl y Cyngor Sir o adolygu Ardaloedd Cadwraeth. Mae'n disgrifio nodweddion pensaernïol a hanesyddol arbennig yr Ardal Gadwraeth ac yn darparu dadansoddiad manwl o'i chymeriad a'i golwg, gan ddod i'r casgliad bod cyfiawnhad amlwg dros ei dynodiad fel Ardal Gadwraeth.

1.4.3 Mae'r Gwerthusiad Cymeriad yn cefnogi polisïau Cynllun Datblygu Lleol Sir Penfro. Rhaid ei ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth asesu a phenderfynu ar geisiadau am ddatblygu o fewn yr Ardal Gadwraeth, ac fel cymorth i lywio ei rheolaeth yn y dyfodol.

| |
|---|
| Bydd y ddogfen hon yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.<br><br>Gall datblygiadau anghyfreithlon arwain at gamau gorfodi yn cael eu cymryd. |

**1.5 Methodoleg**

Dylid ystyried [Gwerthusiad Ardal Gadwraeth] fel y cam cyntaf mewn proses ddeinamig, ble mai'r nod yw i warchod a gwella cymeriad a golwg yr ardal ddynodedig - a darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cynaliadwy am ei dyfodol drwy ddatblygiad cynigion rheoli.

[9] yn dilyn y canllawiau cyffredinol a nodir yn ' Understanding Place: Conservation Area Designation, Appraisal and Management ', English Heritage, 2011

(former English Heritage 2006[10])

1.5.1 Nod y Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth hwn yw ail-asesu'r ardal ddynodedig o ran adolygu ei ffiniau a chofnodi'i diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig.

1.5.2 Mae dull awdurdodau o baratoi gwerthusiadau'n amrywio'n fawr o ran cyflwyniad a fformat. Yr enghreifftiau gorau yw'r rhai hynny sy'n gryno ac sy'n canolbwyntio ar yr elfennau pwysig o gymeriad ardal.

1.5.3 Arfarniad hwn yn ystyried yr Ardal Gadwraeth ' Conservation Area Designation, Appraisal and Management' Historic England 2016 as a guide, and the following objectives:

Bydd y gwerthusiad hwn yn cael ei gynnal gyda'r amcanion canlynol mewn golwg:

I. Amlinellu ac egluro datblygiad hanesyddol ac esblygiad yr ardal;

II. Diffinio a dadansoddi cymeriad arbennig a nodweddion diddorol yr Ardal Gadwraeth, ac o'i chwmpas, o ran ei phensaernïaeth, topograffi, ardaloedd a thirwedd agored, a'r berthynas rhyngddynt;

III. Ar sail yr asesiad hwn; i adolygu ffiniau'r Ardal Gadwraeth bresennol, a'r potensial ar gyfer Cyfarwyddyd Erthygl 4(2)

IV. Nodi cyfleoedd posibl a chynigion rheoli ar gyfer gwarchod a gwella'r ardal.

# Cyd-destun Deddfwriaeth a Pholisi Cynllunio

### 2.1 Deddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cenedlaethol

[10] Yn 2015 newidiodd Historic Buildings and Monuments Commission for England ei enw o English Heritage i Historic England.

2.1.1 Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (Cymru a Lloegr) wedi atgyfnerthu deddfwriaeth gadwraeth gynharach.

2.1.2 Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gofyn i awdurdodau lleol ddynodi fel Ardaloedd Cadwraeth "unrhyw ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ble mae'n ddymunol cadw neu wella ei chymeriad neu olwg".

2.1.3 O dan Adran 69 o'r Ddeddf, mae dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i adolygu Ardaloedd Cadwraeth o bryd i'w gilydd drwy baratoi a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella Ardaloedd Cadwraeth ac i ystyried p'un ai oes galw am ddynodiadau pellach o Ardaloedd Cadwraeth. Mae'n werth nodi y cyflwynwyd y Mesur Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) gan Lywodraeth Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Mai 1, 2015[11].

2.1.4 Dylai'r Gwerthusiad hwn gael ei ddarllen ar y cyd â pholisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau megis Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8 ( Ionawr 2016), a gryfhawyd gan Gylchlythyr 61/96 a Chylchlythyr 1/98. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi cyngor ar ddynodi Ardaloedd Cadwraeth ac yn arbennig, yn rhoi canllawiau penodol ar gyfer asesu eu diddordeb arbennig.

2.1.5 Mae Cylchlythyr 61/96 (para 20) yn datgan mai ansawdd lle ddylai fod yn brif ystyriaeth wrth adnabod, gwarchod a gwella Ardaloedd Cadwraeth. Mae hyn yn dibynnu ar fwy nag adeiladau unigol. Cydnabyddir y gall cymeriad arbennig lle ddeillio o nifer o ffactorau, gan gynnwys: grwpiad adeiladau; eu graddfa a'u perthynas â mannau awyr agored; manylion pensaernïol; ac yn y blaen.

2.1.6 Mae'r cyd-destun presennol ar gyfer polisi cynllunio defnydd tir yng Nghymru ym Mholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8 sy'n rhoi arweiniad penodol ar gyfer dynodi, rheoli cadarnhaol ac adolygu Ardaloedd Cadwraeth. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn egluro rôl awdurdodau cynllunio lleol wrth lunio polisïau Ardal Gadwraeth a gweithredu swyddogaethau rheoli datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth. Rhoddir

[11] Ym mis Tachwedd 2015, roedd y Mesur yn ystod Cyfnod 2 'ystyriaeth fanwl gan Bwyllgor y Bil.

sylw penodol i baratoi gwerthusiadau cymeriad Ardaloedd Cadwraeth a all gynorthwyo awdurdodau cynllunio wrth iddynt weithredu’u swyddogaethau cynllunio a rheoli datblygu.

2.1.7 Mae Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8 (para 6.5.17) yn datgan os byddai unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â'r amcan o gadw neu wella cymeriad neu olwg Ardal Gadwraeth, neu ei lleoliad, bydd rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.

2.1.8 Ategir Polisi Cynllunio Cymru gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN). Mae 'TAN 12: Dylunio' yn berthnasol i Ardaloedd Cadwraeth gan ei fod yn amlinellu nifer o amcanion dylunio da, gan gynnwys yr angen am i ddatblygiad ymateb i gymeriad a chyd-destun.

**2.2 Polisi Cynllunio a Chanllawiau Lleol**

2.2.1 Bydd y Gwerthusiad yn cryfhau polisïau drwy ddarparu mwy o fanylion am yr elfennau arbennig sy'n rhoi ei chymeriad yr Ardal Gadwraeth, ac felly mae'n darparu sail gadarn ar gyfer asesu ceisiadau am ddatblygu o fewn Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun. Dylid ei ddarllen ar y cyd â’r fframwaith polisi cynllun datblygu ehangach a gynhyrchwyd gan y Cyngor Sir.

2.2.2 O ran polisi cynllunio lleol perthnasol i’r gwerthusiad hwn, mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Sir Benfro (CDLl) ym mis Chwefror 2013 ac ynddo nodir polisïau'r Cyngor ar gyfer diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol.

2.2.3 O bwysigrwydd arbennig yn y CDLl mae’r polisïau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol ac yn arbennig, Ardaloedd Cadwraeth.

- SP 1 Datblygu Cynaliadwy
- SP14 Trefi Hwb
- SP 16 Cefn Gwlad
- GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol
- GN.2 Dylunio Cynaliadwy

- GN.3 Isadeiledd a Datblygiadau Newydd
- GN.4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a charbon-isel
- GN.11 Addasu neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol
- GN.37 Amddiffyn a Gwella Bioamrywiaeth
- GN.38 Amddiffyn a Gwella’r Amgylchedd Hanesyddol

2.2.4 Am ddisgrifiad llawn o'r polisïau sy'n rhoi'r cyd-destun ar gyfer asesu cynigion datblygu o fewn Ardaloedd Cadwraeth y Sir gweler y Cynllun Datblygu Lleol [12] a fabwysiadwyd.

**2.3 Strategaeth Gorfodi**

2.3.1 Mae'r pwerau sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yn cynnwys:

- Camau gorfodi yn erbyn datblygu heb ei awdurdodi - hysbysiadau torri rheolau cynllunio / hysbysiadau torri amodau / hysbysiadau gorfodi / hysbysiadau atal / a gwaharddebau;
- Cyflwyno hysbysiadau Atgyweirio, Gwaith Brys ac Adran 215[13];
- Gorchmynion Caffaeliad Gorfodol;
- Hysbysiadau Cadw Adeilad sy'n ymestyn rheolaeth  Adeilad Rhestredig dros adeiladau heb eu rhestru am gyfnod dros dro; a
- Nodi a dynodi Ardaloedd Archeolegol Sensitif fel rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol - dylai dynodiad o'r fath sicrhau ystyriaeth gynnar i faterion archeolegol posibl.

2.3.2 Mae’n rhaid ystyried adeiladau a safleoedd sydd y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, ond sy’n ffinio â’r ardal, fel rhan o'i lleoliad, ac felly mae angen defnyddio ystyriaethau cynllunio tebyg

[12] Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro

[13] Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

# Diffinio Diddordeb Arbennig

3.1 Er nad yw’n rhestr holl gynhwysfawr, daw’r gwerthusiad hwn i'r casgliad bod arbenigedd Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun yn deillio o'r nodweddion allweddol canlynol:

- Yr hanes morwrol hir, cynhenid sydd ynghlwm â sefydlu'r harbwr.
- Nodweddion naturiol y tirwedd arfordirol a thirffurfiau naturiol sydd wedi dylanwadu ar ffurf Cwm Abergwaun; y ffaith ei fod ar wahan i Dref Abergwaun.
- Adeiladau amlwg gyda nodweddion pensaernïol nodedig.
- Golygfeydd pwysig i mewn i, allan o ac o fewn yr Ardal Gadwraeth.
- Cymysgedd amrywiol o arddull a math o adeiladu, gyda'r mwyafrif yn tarddu o’r 18fed a'r 19eg ganrif.
- Adeiladau a therasau Fictoraidd.
- Pier yr harbwr wedi’i restru, harbwr ac aber cysgodol.
- Adeiladau Rhestredig.
- Olion Chwarel hanesyddol, odyn galch a Melin Wlân
- Strydoedd cul.
- Morfa ddiarffordd i fyny'r afon oddi wrth y bont.

# Asesu Diddordeb Arbennig

### 4.1 Lleoliad a Gosodiad

4.1.1 Saif y dref 16 milltir i'r gogledd o dref sirol Hwlffordd, 26.5 milltir i'r gogledd o Benfro ac 16 milltir i'r gorllewin o Aberteifi.

4.1.2 Cwm Abergwaun yw hen dref Abergwaun ac fe saif ger aber yr Afon Gwaun ar arfordir gogleddol Sir Benfro yn ne orllewin Cymru. Fe’i lleolir ar ochr ddwyreiniol Penrhyn Pencaer, lle gaiff gysgod rhag y prifwyntoedd de orllewinol - y prif reswm dros ei ddatblygiad fel porthladd ac anheddiad arfordirol.

4.1.3 Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys 19.23 hectar.

***Cymeriad cyffredinol a ffurf***

4.1.4 Caiff cymeriad y dref ei ffurfio gan ei lleoliad arfordirol prydferth, ardaloedd yr harbwr a'r afon, cefndir arfordirol coediog serth, a lleoliad adeiladau mewn perthynas â'r harbwr, yr afon a'r llethr arfordirol serth.

4.1.5 Mae'r Ardal Gadwraeth yn ardal wledig ei natur sy'n cynnwys tua 100 eiddo preswyl ar hyd wal yr harbwr, ac ar hyd y terasau eiddo sy'n rhedeg yn gyffredinol i'r

gogledd ar Heol Trefdraeth (A487), ac i'r de ar hyd Glyn-y-Mel Road gan ddod i ben wrth hen Westy Glyn-y-Mel.

4.1.6 Mae'r adeiladau wedi datblygu o ganlyniad i ddatblygiad graddol - yr harbwr fel porthladd pysgota a masnachu, cloddio’r chwareli, datblygiad a defnydd y felin ddŵr, yn cynnwys melin wlân ffatri Gwaen, ac mae’r mwyafrif ohonynt yn fythynnod deulawr, gweddol blaen, ond cadarn o'r 17eg, 18fed a'r 19eg ganrif.

4.1.7 Mae'r Ardal Gadwraeth hefyd yn cynnwys dwy ochr y dyffryn coediog arfordirol a'r bryn serth i'r gogledd o'r dref.

***Gosodiad y tirwedd***

4.1.8 Mae anheddiad Cwm Abergwaun yn ymledu o'r harbwr ar draws yr ardal o gorstir gwastad ar hyd y dyffryn a ffurfiwyd gan yr Afon Gwaun, ac yn rhedeg o'r de i'r gogledd ar hyd yr afon, ac i fyny'r Bryn tuag at Drefdraeth. Gwahenir Cwm Abergwaun o ardal Tref Abergwaun gan fryn serth sy’n rhedeg o'r bont garreg ar draws yr afon, i fyny at Main Street a’r Sgwâr drwy Hill Terrace.

4.1.9 Mae’r dopograffeg eithafol yn gorfodi’r troadau yn yr hyn sydd yn ei hanfod, yn brif ffordd yr arfordir (yr A487). Mae’r ffordd yn gul iawn mewn mannau, gyda’r eiddo ar hyd y ffordd wedi’i ddatblygu fesul tipyn, gan ffurfio cyfres o derasau, yn hytrach nac yn dilyn un llinell adeiladu.

4.1.10 Adeiladwyd Cwm Abergwaun yn bennaf ychydig yn uwch na lefel gymedrig y penllanw, ac fe’i hamgylchynir gan lethrau arfordirol serth sy'n cynnwys banciau dramatig o eithin, hen chwareli, coetiroedd, ac, y tu cefn i eiddo ar Quay Street, Heol Trefdraeth a Glyn-y-Mel Road mae gerddi a rhandiroedd serth wedi’u terasu.

4.1.11 Mae'r dref yn ymledu tua'r de ar Glyn-y-Mel Road sy'n rhedeg ar hyd yr ardal o gorstir gwastad ar lan ogleddol yr afon tuag at Glyn-y-Mel. Roedd melin ddŵr ar y safle hwn ar un adeg, ynghyd ag amrywiaeth o adeiladau yn gysylltiedig â chynhyrchu brethyn, a thai gweithwyr.

4.1.12 Mae ffynnon yn llifo i’r afon rhwng y chwareli a ddefnyddiwyd gan danerdy lleoli a safai ar ben y llethr arfordirol, uwchben yr odynau calch.

## 4.2 Datblygiad Hanesyddol ac Archeoleg: Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol yr Ardal

### Llychlynwyr - 10fed Ganrif

4.2.1 Ystyr yr enw Abergwaun, yw Ceg yr Afon Gwaun. (daw’r Saesneg ‘Fishguard’ o’r hen Lychlyneg *fiskigarőr* sy'n golygu 'lloc dal pysgod'). Cafwyd tystiolaeth o

oresgyniad y Rhufeiniaid yn yr ardal, yn ôl y son, drwy ddarganfyddiad darnau o arian yn y cyffiniau.(Fenton) Yn ystod cyfnod y Llychlynwyr bu mwyfwy o gyrchoedd ar arfordir Cymru; yn niwedd y 10fed ganrif daeth safleoedd masnachu ac aneddiadau Llychlynnaidd i'r amlwg, ac fe sefydlwyd porthladd Abergwaun rhwng 950-1000 OC.

4.2.2 O'r canol oesoedd bu Gorllewin Cymru yn ardal gynhyrchu brethyn bwysig, yn enwedig cynhyrchu gwlanen. O'r oesoedd canol hyd at 1925 bu pandy (*Saesneg - fulling mill*) a yrrwyd gan ddŵr yn gweithio, ble byddai'r cnu, a gynhyrchwyd yn lleol, yn cael eu glanhau gan y broses o 'bannu', yna'u nyddu, eu lliwio a'u gwehyddu'n frethyn at ddefnydd lleol ac i'w allforio (*J Geraint Jenkins - Amgueddfa Werin Cymru*)

4.2.3 Mae olion yna dal i fod heddiw o'r gweithgarwch hwn ar hyd glannau'r corstir i'r de o'r hyn sydd bellach yn Glyn-y-Mel Road, gan gynnwys cerrig mawr llyfn ar lan yr afon a mynedfa gerrig i mewn i'r afon. Roedd tanerdy hefyd ar ben y bryn, uwchben y chwareli ger Bro Heulog, ac yn agos i'r ffynnon.

4.2.4 Yn 1582 gorchmynnodd y Pab Gregory XIII newid o'r calendr Iwliaidd i'r calendr Gregoraidd. Rhoddwyd ar waith ym Mhrydain yn 1752, ond ni gydnabuwyd hyn gan drigolion Cwm Gwaun, sy'n dal i ddathlu'r Flwyddyn Newydd ar 13 Ionawr. (*Tony Cornish - Pembrokeshire: Photographic Memories*)

4.2.5 Mae'r ffin ogleddol yn cynnwys y tir sydd wedi ei rannu'n gaeau, sef yr hyn sy'n weddill o'r system llain-gaeau canoloesol.

**<u>12fed -17eg ganrif</u>**

4.2.6 Meddiannwyd Abergwaun gan y Normaniaid yn ystod y 12fed ganrif ac roedd yn un o fwrdeistrefi'r Mers. Roedd Arglwyddi'r Mers yn annog mewnfudo o'r holl freniniaethau Norman-Angywaidd, ac yn annog masnach o borthladdoedd "hafan deg" fel Caerdydd. Yn 1603 cafodd ei disgrifio fel un o bump o fwrdeistrefi Sir Benfro a gai eu goruchwylio gan brif ynad neu warden porthladd. Prif rôl y warden oedd ymgynghorydd ariannol, yn debyg iawn i swyddog cyllid a thollau heddiw.

4.2.7 Roedd chwareli Pistyll Hotch a Blaen-y-Delyn yn gweithio tan ddiwedd y 19eg ganrif. Adeiladwyd odynau calch o gerrig yno cyn gynhared â'r 12fed ganrif, (yn ogystal ag wrth droed y Slade) i gynhyrchu calch ar gyfer gwaith adeiladu lleol, i'w ddefnyddio ar dir amaethyddol ac i'w allforio.

4.2.8 Y prif reswm am ddatblygiad llwyddiannus Abergwaun oedd ei leoliad cysgodol, a gallu'r porthladd i ddygymod â fflydoedd o gychod pysgota a rigiau sgwâr a fasnachent yn Sianel San Sior ac a hwylient i Abergwaun ar wyntoedd deheuol pan na fyddent yn gallu glanio yn Aberdaugleddau. Hefyd safle delfrydol y porthladd cysgodol ar gyfer hwylio am Iwerddon.

4.2.9 Yn ôl yr hanes, tyfodd Abergwaun i fod yn anheddiad sylweddol ar draul Trefdraeth gerllaw, gan y dywedir i'r dref honno gael ei anrheithio gan bla mawr yn y 16eg ganrif (Lewis 1833), ond mae olion o system o lain-gaeau canoloesol ar ochr ddeheuol tref Abergwaun yn awgrymu bod anheddiad trefnus eisoes yn bodoli yno ymhell cyn y 16eg ganrif.

**<u>18fed Ganrif</u>**

4.2.10 Datblygodd masnachu morol ac arfordirol yn gyflym yn ystod y cyfnod hwn, a chyrhaeddodd adeiladu llongau, gyda'i chrefftau cysylltiedig, ei anterth. Daeth gwell dulliau o fwyngloddio chwareli a'r defnydd o'r felin ddŵr, â ffyniant i'r ardal ac ehangwyd ar y cyfleoedd ar gyfer allforio nwyddau a gynhyrchwyd yn lleol.

4.2.11 Mae gan lawer o eiddo presennol y dref ei wreiddiau yn y 18fed a'r 19eg ganrif, ac yno y byddai busnes a masnach y dref yn cael ei gynnal.Roedd yno hefyd dai a gweithdai, a hen gapel Methodistaidd ar Quay Street, sydd bellach wedi'i droi'n dŷ.

4.2.12 Ym 1793, ymddeolodd Richard Fenton, bardd enwog, awdur llyfrau teithio a dyn busnes, i Sir Benfro, ac yn 1799 adeiladodd Glyn-y-Mel yng Nghwm Abergwaun. Adeiladwyd llawer o adeiladau ar yr ystâd, gan gynnwys capel, siediau gardd, tai gwydr ac amrywiaeth o weithdai, er mwyn darparu gwaith ar gyfer y gymuned leol. Yma yn 1811 yr ysgrifennodd ei lyfr enwog "A Historical Tour Through Pembrokeshire " ac yma y bu farw ym mis Tachwedd 1821.

4.2.13 Dirywiodd waliau'r porthladd oherwydd y defnydd trwm o borthladd Abergwaun, pan oedd masnachu arfordirol ar ei anterth yn y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif, ac o ganlyniad, collwyd masnach i borthladdoedd eraill fel Aberdaugleddau a Solfach. Yn 1837 cafwyd cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Seneddol ar gyfer gwella'r Harbwr a'r pier, ond ar y pryd rhoddwyd y cynlluniau o'r neilltu gan yr amcangyfrwyd y byddai'r gost yn debygol o fod yn fwy na £ 250,000. Fodd bynnag, adeiladwyd pier a chei newydd yn ddiweddarach, rhwng 1860 - 1862. (*John Richards - Maritime Wales*)

4.2.14 Ailadeiladwyd y bont garreg un bwa dros yr afon tua'r flwyddyn 1880, gan ddisodli pont garreg, gulach, bedwar bwa. (*Martin Lewis - Newport Pembs and Fishguard - Images of Wales)*

**19eg a'r 20fed Ganrif**

4.2.15 Yn yr 1800au cynnar adeiladwyd a gweithredwyd warws pedwar llawr trawiadol ar waelod y bryn, ar y safle sydd bellach yn faes parcio'r Skirmisher, gan Spillers, (ynghyd â warws a adeiladwyd ar ben draw'r harbwr, ble mae'r Clwb Hwylio erbyn hyn). Gyda dirywiad y gweithgaredd masnachu roedd y warws yn ddiangen erbyn y 1930au, ac fe'i cymerwyd drosodd yn ddiweddarach gan y Cadetiaid Môr.

4.2.16 Yn yr 1960au defnyddiwyd tai hardd y cei a'r harbwr fel lleoliad ar gyfer ffilm o ddrama enwog Dylan Thomas 'Under Milkwood ', gyda'r actorion enwog Peter O'Toole, Richard Burton ac Elizabeth Taylor. Datblygwyd gardd hardd Plas Glyn-y-Mel yn bennaf ar ddechrau'r 19eg ganrif. Mae wynebau artiffisial ei chlogwyni, a gafodd eu blastio gan Fenton, a llwybrau a naddwyd i mewn i'r clogwyn, ynghyd â grotos a therasau, wedi sicrhau ei bod ar y Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru [14].

## Archeoleg

4.2.17 Mae nifer o garneddau neu dwmpathau artiffisial yn y cyffiniau, sy'n arwydd bod amddiffynfeydd wedi eu hadeiladu yma yn ystod rhyfeloedd rhwng y Cymry a'r Sacsoniaid goresgynnol. Mae yna hefyd safleoedd o'r Oes Neolithig ac o'r Oes Efydd gerllaw:

1. **Penrhiw** (SM942390) beddrod siambr Neolithig. (SAM)

2. **Carreg Samson / Garn Wern** (SM 948,390) Mynwent beddrod siambr Neolithig, sy'n cynnwys tair siambr gladdu yn agos i'w gilydd (SAM)

3. **Garn Wern**. (SM947390).Crug crwn o'r Oes Efydd

4. **Castell Mwrtach**. (SM 953,365) Lloc amddiffynnol o'r Oes Haearn.

5. **Y Caerau**. (SM967366) Bryngaer o'r Oes Haearn.

[14] Cofrestr Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro o Dirluniau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1 Parciau a Gerddi, Cadw, 2002.

6**. Cell Sant Dyfrig** (yn SM 967,369). Yn ôl traddodiad lleol, treuliodd y sant Celtaidd hwn o'r 6ed ganrif ran o'i fywyd mewn ogof yng Nglyn-y-Mel ger Cwm Abergwaun. Yn ôl y chwedl, fe'i penodwyd yn Archesgob Cymru o Gaerllion gan Sant Garmon o Auxerre, ac yn ddiweddarach, fe goronodd y Brenin Arthur.

## 4.3 Dadansoddiad Gofodol

### Cymeriad a Chydberthynas Gofodau o fewn yr Ardal

#### *Llwybrau*

4.3.1 Mae hierarchaeth glir o lwybrau o fewn yr Ardal Gadwraeth sy'n cynnwys y prif sianeli symud.

1. **A478 Ffordd yr arfordir i Drefdraeth** sy'n rhedeg i'r gorllewin dros y bont garreg un bwa i Abergwaun ac i'r dwyrain i Ddinas a Threfdraeth ac yn caniatáu mynediad trwy Quay Street i'r harbwr a'r cei. Yng Nghwm Abergwaun, mae'r ffordd hon yn culhau i un lôn, gan ganiatáu pasio mewn nifer cyfyngedig o leoedd a gyda llwybr troed cul, neu ddim o gwbl mewn mannau. Oddi ar y ffordd yma ceir golygfeydd o'r harbwr ac allan i'r môr yn ogystal â golygfeydd o adeiladau o ddiddordeb ar y stryd.

2. **Quay Street** - sy'n darparu'r brif fynedfa i ardal y glannau a'r harbwr ac i faes parcio sydd ar hyd ymyl yr harbwr, sy'n cefnu ar eiddo ar Bridge Street a Heol Trefdraeth.

3. **Glyn-y-Mel Road** sy'n arwain at eiddo yn nwyrain Cwm Abergwaun

4.3.2 Mae ffordd yr arfordir (A487) yn rhedeg trwy'r dref, oddi wrth y bont, dros yr afon i gyfeiriad gogleddol yn gyffredinol, ond gyda mynediad i'r harbwr a'r cei ar hyd Quay Street. Ar ôl croesi'r bont garreg un bwa dros yr afon i mewn i Gwm Abergwaun Bridge Street mae'r ffordd yn troi'n sydyn i'r chwith, culhau i un lôn bron, ac yna'n rhannu dwy ffordd, i'r chwith tuag at yr harbwr a'r cei hyd Quay Street, sy'n cynnwys yn bennaf amrywiaeth o adeiladau deulawr, ac i'r dde i fyny'r bryn i'r gogledd drwy Heol Trefdraeth, lle mewn rhannau mae'n culhau i un lôn, yn enwedig yng nghyffiniau rhifau 2 - 10, a thu allan i rif 13 lle mae'r llwybrau troed yn gyfyng iawn.

4.3.3 Ychydig ymhellach ar hyd y ffordd hon mae'n rhannu eto - i'r dde i fyny Hen Heol Trefdraeth, ac yn syth ymlaen ar hyd prif ffordd yr arfordir i Drefdraeth.

4.3.4 Mae'r ffordd fynediad yma hefyd yn arwain at faes parcio bychan ar ochr ddwyreiniol yr afon i gefn rhifau 2-10 Newport Road, ac mae wedi bod yn destun astudiaeth ddiweddar gan Asiantaeth yr Amgylchedd, gan fod llifogydd achlysurol wedi achosi problemau i eiddo lleol ac mae'r adeiladau a effeithiwyd wedi cael rhwystrau rhag llifogydd wedi'u gosod arnynt, er bod dŵr yn parhau i godi trwy loriau'r tai. Yn ystod Ionawr 2014, roedd yr ardal a ddioddefodd lifogydd yn cynnwys Newport Road, Bridge Street, Quay Street, y maes parcio a Glynymel Road[15]. Bydd angen ystyried yn ofalus y mynediad i gerbydau brys yn ystod unrhyw ddigwyddiad llifogydd i'r dyfodol.

4.3.5 Mae llwybrau hardd yn rhedeg ar ben ac wrth droed y llethr arfordirol serth ar ochr ddeheuol yr afon, sef yr hen gysylltiad rhwng y Chwareli ac ardal yr harbwr, The Slade, Lampit Bach a rownd y penrhyn i'r gogledd. Mae'r hawl tramwy cyhoeddus yn ymdroelli i lawr o Tower Hill, drwy lethrau coediog serth, heibio chwareli wedi cau (sydd yn awr wedi'u cuddio gan lystyfiant) cyn ymuno â'r llwybr ar lan yr afon. I'r gogledd, mae'r llwybr yn rhedeg ar lan yr afon, heibio'r odyn galch segur a nifer o adeiladau bach sydd wedi dirywio. I'r de mae'r llwybr yn gwyro oddi wrth yr afon, ac yn crwydro rhwng nifer o gaeau bach afreolaidd ar hyd llawr cul y dyffryn. Mae'r daith gerdded ar hyd llawr y dyffryn yn rhoi cyfle i ymweld â'r afon a mannau mwy anffurfiol cefn gwlad ac yn gyferbyniad da i'r llwybrau at leoliad mwy ffurfiol dŵr yr harbwr. Mae mynediad, ar wahan, i gerddwyr hefyd yn bosibl, rhwng adeiladau i ardal yr harbwr. Mae llwybr cerdded ar hyd wal yr harbwr a cheir cyfle i edmygu'r golygfeydd o'r meinciau a ddarperir.

4.3.6 Mae'r ffordd gul sy'n rhedeg tua'r de i gyfeiriad Glyn-y-Mel yn culhau i fawr mwy na thrac, sy'n adlewyrchiad o natur hanesyddol y ffordd hon. Bu'r datblygiad arni'n dameidiog dros y blynyddoedd, gyda grwpiau o adeiladau gyda mwy o ofod rhyngddynt ac wedi'u gosod yn ôl oddi wrth ymyl ffordd. Fodd bynnag, mae ceir wedi'u parcio yn agos at flaenau'r adeiladau sydd ar Glyn-y-Mel Road ac mae'r holl geir a faniau'n cael effaith negyddol ar gymeriad a golwg y stryd. Yn yr un modd, mae defnydd da o'r meysydd parcio yng Nghwm Abergwaun ond nid oes ganddynt driniaethau ffiniol neu mae deunyddiau'r rhai sydd wedi'u gosod yn anghydnaws â chymeriad hanesyddol yr ardal ac maent wedi'u cynllunio, eu hadeiladu neu eu cynnal yn wael, ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal.

---

[15] Adroddiad Ymchwilio i Lifogydd, Tref Isaf Abergwaun, Dydd Gwener Ionawr 2014, Cyngor Sir Penfro.

4.3.7 Mae ffin yr Ardal Gadwraeth bresennol yn gysylltiedig â nodweddion topograffig ac yn dilyn llinell penllanw cymedrig yr harbwr, ar hyd pen y bryn i'r dwyrain o Heol Trefdraeth, yna ar hyd llinell uchaf y llethr arfordirol gorllewinol sy'n cysylltu ag Ardal Gadwraeth Tref Abergwaun, ac ymyl ddeheuol cwrs iseldirol yr afon.

**Nodau**

4.3.8 Mae’r prif fannau, neu nodau o fewn yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys:

• Cyffordd Bridge Street, Heol Trefdraeth a Glyn-y-Mel Road, lle mae meinciau, planwyr, llwybrau troed a man glaswelltog mewn man agored ffurfiol bach i'r de o'r bont.

• Y llwybr a’r mannau eistedd ar ben wal y cei sy'n gwahanu glan y dŵr oddi wrth amrywiaeth o adeiladau ar raddfa ddomestig draddodiadol.

• Yr ardal chwarae gaeedig, gydag offer, rhwng maes parcio’r harbwr a Quay Street sy’n cynnig man cyfarfod i drigolion iau ac ymwelwyr.

**Mannau agored ardaloedd cyhoeddus**

4.3.9 Mae ffocws yr Ardal Gadwraeth yn bennaf ar ddatblygiad adeiledig Cwm Abergwaun, lle mae'r strydoedd yn gul ac, yn gyffredinol, wedi’u hamgáu gan dai teras. Prin yw’r bylchau mwy yn y strydwedd y tu hwnt i'r maes parcio anffurfiol ar hyd Quay Street. Mae’r mwyafrif o’r mannau cyhoeddus ar hyd glan y dŵr gyda mannau eistedd wedi’u gosod ar hyd wal yr harbwr er mwyn manteisio ar y golygfeydd hardd. Y man agored ffurfiol wrth gyffordd Heol Trefdraeth a Bridge Street yw’r unig fan agored sydd ar agor i’r cyhoedd, oddi wrth lan y dŵr. Mae’r prif fannau, mannau cwrdd neu nodau o fewn yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys:

- W**al yr harbwr a'r cei** blr mae ehangder o dir agored ar hyd glan y dŵr. Mae meinciau wedi’u gosod yn wynebu'r dŵr bob hyn a hyn a nifer ohonynt ar ben draw’r cei.

- **Ardal agored, ffurfiol Bridge Street** ble mae glaswellt, meinciau a phlanwyr concrid ar gornel Bridge Street, a Heol Trefdraeth ble mae eiddo preswyl a ‘Capel y Cwm’ wedi cael eu dymchwel er mwyn gwella gwelededd ar y gornel. Mae darn byr o reiliau diogelwch yma yn ymarferol a modern o ran dyluniad ac yn gwneud cyfraniad negyddol i esthetig gweledol a chymeriad hanesyddol yr ardal.

- M**an chwarae Heol y Cei** rhwng Quay Street a'r maes parcio yng nghefn Bridge Street. Cyfyngir ar y gallu i weld i mewn i'r ardal hon gan waliau cerrig uchel ar hyd ei ffin, a lloches bws concrit ar Quay Street.

**Barnau allweddol**

4.3.10 O fewn yr Ardal Gadwraeth, mae nifer o olygfeydd pwysig, llawer ohonynt sydd eisoes wedi cael eu trafod. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ond fe ddengys bod y golygfeydd o fewn, wrth edrych i mewn ac wrth edrych allan o'r Ardal Gadwraeth yn ffurfio rhan bwysig o gymeriad yr Ardal Gadwraeth ac felly y dylid eu gwarchod a'u gwella lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

4.3.11 Wrth edrych yn ôl oddi wrth y cei tuag at Gwm Abergwaun ceir golygfa eang o'r glannau, yr harbwr a'r warws carreg pedwar llawr trawiadol ym maes parcio'r Skirmisher ar waelod y bryn. Mae'r llethrau coediog yn gefnlen drawiadol i Gwm Abergwaun ac yn lleoliad hardd ar gyfer yr Ardal Gadwraeth.



Cwm Abergwaun o Wal y Cei (28.9.15)



Cwm Abergwaun o lwybr troed ar Heol Trefdraeth (28.9.15)

4.3.12 Gall cerddwyr, neu gerbydau uchel weld golygfeydd o fannau uchaf yr A478, Heol Trefdraeth wrth i’r ffordd ddisgyn yn serth i lawr i Gwm Abergwaun. Er, mae llystyfiant yr haf yn cuddio llawer o’r golygfeydd o’r priffyrdd a’r llwybrau yma, yn ogystal ag ar hyd Tower Hill.



Golygfa o ardal yr Harbwr o lwybr ar ochr y ffordd i lawr, allan o Abergwaun (28.9.15)

4.3.13 Mae’n bosibl gweld golygfa o'r cei mewn bylchau ar lethr serth coediog y dyffryn i fyny tuag at Abergwaun. Mae hawliau tramwy cyhoeddus ar ochrau’r dyffryn, sy’n ymuno ag Abergwaun ger Slade ac yn caniatáu mynediad i'r blaendraeth.

4.3.14 Gellir gweld golygfeydd o Glyn-y-Mel Road sy’n gorwedd yn y dyffryn serth, coediog a golygfeydd o fryniau Dinas a Threfdraeth tu draw.



Golygfa o Glyn-y-Mel o Tower Hill (28.9.15)

4.3.15 Mae llawer o olygfeydd gwych o Gwm Abergwaun o Penslade a’r llwybrau troed sy'n arwain lawr o’r Slade at y llethr arfordirol gwaelod.

4.3.16 Mae’r ffordd droellog, ddifyr drwy Gwm Abergwaun yn rhoi golygfeydd o'r harbwr a golygfeydd allan i'r môr wrth groesi’r bont. Ble mae’r stryd yn culhau ceir ymdeimlad amgaeedig ac mae cynllun a ffurf yr adeiladau traddodiadol yn wynebu i

mewn i'r stryd gul. Fodd bynnag, ar adegau mae'r traffig trwm yn tarfu ar yr ymdeimlad o le yma.

*Golygfeydd panoramig*

• Gellir gweld Cwm Abergwaun o nifer o safleoedd yn nhref Abergwaun, yn arbennig o'r Slade ac ardal y llethr arfordirol gyferbyn â'r harbwr, yn ogystal ag o ran uchaf Penslade ac ar hyd y Golden Mile.

• Ceir golygfeydd ardderchog o Gwm Abergwaun o Tower Hill a'r llwybr sy'n rhedeg ar hyd y llethr uwchben y chwareli

*Golygfeydd pell*

• Mae llawer o olygfeydd gwych o erddi eiddo sydd ar hyd llwybr yr A487 drwy Abergwaun, lawr Hill Terrace ac i fyny'r allt serth o Gwm Abergwaun tuag at Drefdraeth. Rhan o swyn Abergwaun a Chwm Abergwaun yw'r golygfeydd hyfryd sydd o'r naill i'r llall.

• Mae'n bosibl gweld golygfa draw tuag at Wdig o ben gogleddol y cei ac ar hyd yr harbwr yn ogystal ag i fyny tuag at dref Abergwaun.

*Golygfeydd agos*

• Mae golygfeydd agos arwyddocaol yn bosibl ar hyd wal y cei gyda golygfeydd i Gwm Abergwaun a Chwm Gwaun.

**Adeiladau allweddol arwyddocaol**

4.3.17 Roedd twf cynnar Cwm Abergwaun oherwydd y fasnach bysgota, penwaig yn bennaf, gydag Iwerddon a rhannau o Loegr, ac arweiniodd hyn at ddatblygiad cynnar yr harbwr, a gredir iddo gael ei ddefnyddio ers y 10fed ganrif. Golygodd stormydd a defnydd trwm bod llawer o waith atgyweirio a newidiadau wedi'u gwneud ar hyd y blynyddoedd tan tua 1860, pan ailadeiladwyd y cei yn sylweddol.





Pont Cwm Abergwaun ac Adeilad Skirmisher (28.9.15)

4.3.18 Adeiladwyd y bont un bwa, gain dros yr afon Gwaun tua 1885 gan ddisodli'r hen bont bedwar bwa.

4.3.19 Wrth groesi Pont Cwm Abergwaun tuag at Abergwaun, mae'r warws pedwar llawr urddasol o'r 19eg ganrif yn dominyddu ochr y môr o'r llethr arfordirol. Credir iddo fod yn storfa rawn yn y gorffennol, ond mae'r adeilad bellach yn cael ei ddefnyddio fel ysgol hyfforddi hwylio a gan y cadetiaid môr. Mae'r adeilad yn arwydd o raddfa'r fasnach a'r economi yn yr ardal yn ystod y 19eg ganrif.



Golygfa o Blas Glyn-y-Mel yn y Gaeaf (2013)

4.3.20 Plas Glyn-y-Mel, sydd wedi'i leoli yn ei diroedd ei hun ar ben draw Glyn-y-Mel Road oedd cartref gwledig yr hanesydd Sir Benfro, Richard Fenton, o 1797-9 ac efallai ei fod wedi'i adeiladu i'w ddyluniad ef ei hun. Mae'n arbennig o nodedig fel enghraifft gynnar o egwyddorion tirwedd pictiwrésg. Dewiswyd y safle oherwydd ei geunant creigiog. Mae'r ystâd wreiddiol yn cynnwys llawer o dai allan, melin ddŵr (sydd wedi mynd erbyn hyn) groto ac ogof Sant Dubricius o'r 6ed ganrif (sef enw Lladin Sant Dyfrig).. Cafodd gweddill yr adeiladau eu troi'n fythynnod gwyliau yn y 1960au a'r 70au, a gerllaw mae bwthyn carreg gyda chlochdy a allai

fod wedi bod yn gapel yr ystâd. Gwerthwyd Glyn-y-Mel fel gwesty yn 1975 ond credir ei fod bellach yn gartref preifat.



4.3.21 Mae'n bosibl bod Tafarn y Ship, ar Heol Trefdraeth, cyn dŷ teras a thafarn hanesyddol o ddechrau'r 19eg ganrif, yn ddau dŷ yn wreiddiol. Mae nodweddion diddorol wedi'u cadw, gan gynnwys to llechi wedi'i growtio, ffenestri codi o ddyluniad 4 a 12 paen, simneiau a rennir ac arwyddion traddodiadol a golch-liw y tu allan.

Tafarn y Ship, Heol Trefdraeth (28.9.15)

4.3.22 Mae nifer o adeiladau amlwg a adeiladwyd yn ystod y 19eg ganrif ac a restrwyd erbyn hyn, yn yr Ardal Gadwraeth, gan gynnwys Adeilad Skirmisher a ymestynnwyd yn y cefn yn 2003. Wedi'i leoli yn y maes parcio i'r gorllewin o geg yr afon, adeilad Spillers oedd hwn, ond,ers y 1930au, mae'r Cadetiaid Môr yn ei ddefnyddio.

**Tir y cyhoedd**

4.3.23 Mae dwy ardal arwyddocaol o dir y cyhoedd yn yr Ardal Gadwraeth. Ardal yr harbwr sy'n caniatáu mynediad at y glannau ac yn darparu cyfleoedd hamdden anffurfiol wrth wal yr harbwr ac yn gysylltiedig â'r dŵr, ac ardal arall ar gyffordd Bridge Street a Heol Trefdraeth sy'n fan eistedd. O fewn yr Ardal Gadwraeth, mae elfennau tir y cyhoedd megis dodrefn stryd, goleuadau a phlanwyr yn gymysgedd gyffredinol o arddulliau a deunyddiau. Yn ardal yr harbwr, ceir goleuadau o arddull Fictoraidd draddodiadol, tra bo'r meinciau'n gymysgedd o ddeunyddiau modern wedi'u hailgylchu a choncrid sydd heb fod yn gydnaws â chymeriad yr Ardal Gadwraeth.

**Ardaloedd gwyrdd/agored, coed a thirlunio**

4.3.24 Nid oes unrhyw goed tir y cyhoedd o fewn ardal adeiledig Cwm Abergwaun a chyfyngedig yw'r cyfle ar gyfer tirlunio ardaloedd tir y cyhoedd y tu hwnt i ardal yr harbwr a'r maes parcio. Mae yna ychydig o goed mewn gerddi. Ar hyd ochr ddwyreiniol Heol Trefdraeth a Glyn-y-Mel Road mae rhagor o goed gardd, ble mae'r gerddi'n uno â'r llethrau coediog. Mae'r llethrau coediog a thopograffeg yr ardal yn nodwedd hanfodol o gymeriad gwledig a chefnlen Cwm Abergwaun ac yn elfen allweddol yng nghyfoeth y golygfeydd ar draws y dyffryn ac o fewn yr Ardal

Gadwraeth. Mae llawer o'r coed mewn perchnogaeth breifat a gallai fod o gymorth darparu canllawiau ar gyfer eu rheoli a'i cynnal a chadw.

4.3.25 Gellir gweld golygfeydd o ardal o dir agored anffurfiol 'Mwsland', sydd ar lan yr afon ar Glyn-y-Mel Road wrth gerdded ar hyd yr afon Gwaun. Fe ymddengys bod yr ardal hon o dir agored yn eiddo preifat gyda'r mynediad iddo'n gyfyngedig. Mae 'Mwsland' yn ardal o dir isel ar hyd yr afon ac yn debygol orlifo o dro i dro.

4.3.26 Mae grŵp gwirfoddol lleol yn cynnal a gwella'r mannau gwyrdd.

**4.4 Dadansoddiad Cymeriad**

4.4.1 Yn fras, gellir rhannu Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun yn dair rhan o safbwynt cymeriad - pob un ohonynt gyda'i nodweddion cynhenid annibynnol. Er nad yw ffiniau'r ardaloedd yn sefydlog na phendant, mae gwahaniaethau amlwg rhyngddynt o ran defnydd tir a gweithgareddau presennol a blaenorol, ffurf adeiladu, cynllun a nodweddion a manylion unigol.

- Yr **harbwr** gan gynnwys Quay Street, ochr orllewinol Heol Trefdraeth, ochr ogleddol Bridge Street, adeilad Skirmisher a meysydd parcio i'r dwyrain ac i'r gorllewin o'r harbwr

- Ochr ddwyreiniol **A478 Heol Trefdraeth**, gan ymestyn i mewn i erddi, rhandiroedd a llethrau coediog ar ymyl yr Ardal Gadwraeth ac yn cynnwys Hen Heol Trefdraeth

- **Glyn-y-Mel Road** ac ochr ddeheuol Bridge Street, y llethrau coediog, hen chwareli ac ardaloedd Mwsland a Mill Race, yr hen danerdy a'r hen felin wlân.

4.4.2 Mae'r map ardaloedd nodwedd yn dangos maint bob ardal (Atodiad 1). Mae'r adrannau isod yn trafod yn gryno'u datblygiad hanesyddol ac yn crynhoi eu prif nodweddion.

**Ardal Nodwedd 1: Yr Harbwr**

4.4.3 Y prif ddylanwadau ar gymeriad yr ardal hon yw'r harbwr a'r glannau a'r amrywiaeth o eiddo sydd wedi'i ddatblygu bob yn dipyn, yn hytrach na mewn rhediadau hir o derasau unffurf yn yr ardal.



Meinciau wrth yr harbwr 28.9.15

4.4.4 Byddai'r harbwr wedi'i adeiladu yn wreiddiol yn y 16eg ganrif, ond yn ddi os byddai stormydd, a defnydd trwm wedi golygu bod llawer o waith atgyweirio a newidiadau wedi digwydd yma dros y blynyddoedd tan tua 1860 pan ailadeiladwyd y cei yn sylweddol. Mae'r coblau gwreiddiol ar ymyl wal yr harbwr hyd heddiw tra bo'r ffordd yn adlewyrchu hyn gyda blociau modern.



Golygfa o'r Harbwr tuag at Wdig (28.9.15)

4.4.5 Mae Quay Street yn rhedeg ar hyd llinell gymedr y penllanw ac mae ganddi wal cei galchfaen gadarn gyda setiau o risiau at lan y dŵr, pier ar y pen gogleddol, a llithrfa yng ngogledd yr harbwr. Mae'r bythynnod sydd ar hyd Quay Street yn bennaf yn dai cerrig, deulawr a adeiladwyd yn wreiddiol gyda dwy ystafell i fyny a dwy i lawr, gydag estyniadau diweddarach yn y cefn. Mae gan y tai i gyd waliau cerrig trwchus, gyda rhywfaint o'u harwynebedd wedi'i rendro a rhywfaint yn waith cerrig wedi'i bwyntio. Mae'r tai hyn wedi datblygu'n derasau llai gyda nodweddion tebyg yn eu clymu ynghyd, megis eu graddfa, ffenestri dormer, gorffeniadau plastr, simneiau, neu arddull y ffenestri.



Rhif 3 Quay Street (28.9.15)

4.4.6 Mae rhifau 3 - 11 yn ffurfio teras ac yn adeiladau carreg, deulawr, gweddol blaen gyda llinellau crib a bondo di-dor, simneiau brics coch a ffenestri codi, fertigol. Mae gan Rif 3 estyniad modern i'r ochr sydd wedi ei osod yn ôl o'r llinell adeiladu ond mae hunaniaeth gref y teras yn parhau.

4.4.7 Mae'r hen gwt cychod / gweithdai (isod) nesaf at y teras hwn wedi'u hailddatblygu yn yr arddull gynhenid leol ac wedi'u cysylltu i ochr dde'r teras presennol gan estyniad cyswllt wyneb tun crychog. Mae'r ailddatblygiad wedi'i drefnu mewn modd sy'n cryfhau llinell flaen y stryd ac yn darparu rhagor o ddyfnder





adeiladu.

Cyn gwt cychod (2013) a'r ailddatblygiad (28.9.15)





21 a 19 Quay Street (28.9.15)

4.4.8 Mae Rhif 21 yn fwthyn un llawr a hanner o ddechrau'r 19eg ganrif gyda gorffeniad rendr llaw, ffenestri codi 12 paen ar y llawr isaf, a ffenestri to arddull ‘velux’.

4.4.9 Mae Rhif 23 yn fwthyn sengl, deulawr o ddiwedd y 19eg ganrif gyda gorffeniad carreg wedi’i bwyntio, to llechi gyda dwy ffenestr dormer, simnai brics coch a theils crib clai coch, addurnedig. Mae ffenestri a drws Upvc wedi’u gosod, ond mae’r bwâu brics uwchben y ffenestri a’r drws a silffoedd ffenestri a rhiniog lechi yn dal yn eu lle.





Rhifau 25 a 27 Quay Street (28.9.15)

4.4.10 Mae gan Rifau 25 a 27, sydd wedi’u gosod yn ôl o ymyl y ffordd, dalcenni mawr cerrig ac mae gan un ohonynt deils crib addurnol, wyneb a manylion porch cydnaws.



4.4.11 Mae Rhif 29 hefyd wedi’i osod yn ôl ac yn sefyll ar ei ben ei hun.

Mae ganddo orffeniad rendr ac ar y llawr cyntaf mae dau ddrws gwag i’r balconi, gyda thoeau fflat uwch eu pennau, a wal o gerrig o gwmpas yr ardd. Mae gan yr eiddo ffenestri pren caled modern. Mae balconi llawr cyntaf yn ychwanegiad diweddar. Mae’r garej i’r ochr dan berchnogaeth ar wahân.

29 Quay Street (28.9.15)



4.4.12 Mae Rhifau 33, 35 a 37 yn ffurfio teras sylweddol, braf ac mae gan bob un ohonynt dair ffenestr dormer ar y llawr cyntaf. Mae Rhifau 33 a 35 yn dai llawr a hanner a rhif 37 yn ddeulawr, felly mae llinellau'r grib a'r bondo yn cael eu torri, ond mae hwn yn deras o dai sy'n llawn cymeriad, ac sydd wedi cadw llawer o'r manylion gwreiddiol.

33-37 Quay Street (28.9.15)



4.4.13 Tuag y llithrfa mae hen stordai sydd nawr yn Glwb Hwylio Bae Abergwaun. Tra bo rhywfaint o fanylion diddorol i'r adeilad, mae ffenestri plastig a drysau Ffrengig yn cyflwyno naws modern anaddas. Mae pier gyda llithrfa i ran allanol yr harbwr lle mae'r cerflun 'Sun Worshipper' gan John Cleal yn eistedd yn erbyn wyneb y clogwyn.

Clwb Hwylio Bae Abergwaun (28.9.15)

4.4.14 Mae maes parcio bychan ar y chwith wrth droi i mewn i Quay Street y tu ôl i rifau 1 - 10 Heol Trefdraeth, a rhifau 2 - 8 (eilrifau'n unig) Quay Street. Mae llifogydd llanwol rheolaidd wedi achosi problemau ac o ganlyniad i astudiaeth effaith llifogydd diweddar a gynhaliwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, mae offer amddiffyn rhag llifogydd yn cael ei osod ar ddrysau'r eiddo hynny yr effeithir arnynt gan amrediad y llanw.





Maes parcio tu ôl i Bridge Street a chelf John Cleal Fishguard Herrings a arferai gael eu mygu yn y Dref Isaf (28.9.15)

4.4.15 Mae'r maes parcio i'r gogledd o'r bont yn rhan o olygfa cefn yr eiddo ar hyd gwaelod Heol Trefdraeth a rhifau 2-8 (eilrifau'n unig) Quay Street. Mae rhai ohonynt â nodweddion cyfoes, yn enwedig Rhif 8 ar y gornel sydd wedi cael ei foderneiddio, a'r balconi a threfniadau mynediad sydd yng nghefn yr hen eglwys.





8 Quay Street a'r hen Gapel (28.9.15)

4.4.16 Maes parcio'r Skirmisher, i'r gorllewin o geg yr afon, ble mae adeilad y Skirmisher, yw'r prif safle gaeafu ar gyfer cychod. Mae ganddo lithrfa'n wynebu'r gogledd i mewn i'r harbwr a storfa / swyddfa'r harbwr feistr, a adeiladwyd yn ddiweddar, gerllaw, a chysylltiadau â'r Slade drwy rodfa ar hyd ymyl y traeth.

Bridge Street (28.915)



4.4.17 Mae dau eiddo ar hyd ochr ogleddol Bridge Street yn ffurfio teras cryf wrth y fynedfa i Gwm Abergwaun o gyfeiriad Abergwaun. Mae'r eiddo wrth y bont wedi cael ei ymestyn ac yn mwynhau golygfeydd o'r dŵr a'r arfordir. Mae'r strwythur gwreiddiol yn waith cerrig wedi'i bwyntio gyda bandiau plastr a godwyd o amgylch yr agoriadau, tra bo'r estyniad o rendr llyfn wedi'i beintio, gydag amrywiaeth o agoriadau ffenestri a drysau, heb fod yr un ohonynt yn adlewyrchu'r ffenestri codi fertigol sydd ar ffasâd gweddill y stryd. Tra bo blaen y teras yn parhau i gynnal ffurf a chymesuredd yr adeiladau gwreiddiol a'r ffenestri codi, nid yw'r ffenestri Upvc newydd yn cadw'n driw i'r deunyddiau pren traddodiadol. Dymchwelwyd yr eiddo ar y gornel yn ystod canol yr 20fed ganrif er mwyn gwella gwelededd a mynediad i mewn i Heol Trefdraeth i'r gogledd. Mae'r ardal yn awr yn fan agored wedi'i osod allan yn ffurfiol.

**Ardal Nodwedd 1 Crynodeb ac Argymhellion**

**4.4.18 Mae yma amrywiaeth o fythynnod a adeiladwyd yn niwedd y 18fed ganrif a’r 19eg ganrif yn cynrychioli llawer o wahanol siapiau a manylion, ond yn bennaf, ceir yma arddull frodorol Sir Benfro o adeiladu â chalchfaen a gloddiwyd yn lleol, gyda thoeau llechi, goleddol, simneiau brics neu garreg, amrywiaeth o ffenestri dormer, ffenestri codi fertigol a osodwyd i mewn oddi wrth y ffasâd, rhai landeri a phibellau glaw haearn bwrw, ac amrywiaeth o orffeniadau o galch a sment, ble mae gorffeniad.**

**4.4.19 Collwyd rhywfaint o’r manylion ond mae’n bosibl i hyn gael ei wrthdroi, gan adfer y defnydd o ffenestri a drysau pren traddodiadol. Dylai'r Cyngor annog adfer manylion traddodiadol trwy gyhoeddi canllawiau cynllunio atodol ar ffurf canllawiau dylunio.**

**4.4.20 Mae’r celfi stryd o fewn yr ardal nodwedd hon yn amrywio o ran eu harddull ac nid yw o reidrwydd yn cyd-fynd â nodweddion arbennig yr ardal. Pan ddaw cyfleoedd i newid celf strydoedd, efallai bydd arddulliau traddodiadol yn addas, ond byddwn hefyd yn cefnogi cynlluniau modern o ansawdd uchel a fydd yn cydweddu ac yn gwella nodweddion lleol. Yn gyffredinol mae’r annibendod gweledol ar linell y toeon yn weddol isel, er bod sawl dysgl lloeren wedi’i lleoli ar flaen yr adeiladau, a byddai canllawiau am leoliad priodol dysglau lloeren, ceblau a gwifrau ar ochr neu gefn drychiadau yn helpu i leihau eu hymyrraeth weledol .**

**Ardal Nodwedd 2: Heol Trefdraeth**

- A478 Heol Trefdraeth o'r gyffordd â Bridge Street a Glyn-y-Mel Road , gan gynnwys Hen Heol Trefdraeth a’r llethrau, coediog yn bennaf, i’r tu ôl.

4.4.21 Mae cymeriad cyffredinol yr ardal hon yn cael ei ddylanwadu’n bennaf gan y terasau cryf o anheddau brodorol, gydag ochr goediog y dyffryn yn gefnlen ddramatig a datblygiadau o dipyn i beth ar Hen Heol Trefdraeth.

4.4.22 Yr A478 yw'r brif ffordd trwy Gwm Abergwaun. Mae'n culhau i un lôn mewn mannau ac nid oes llwybrau troed am y rhan fwyaf o’r rhan yma. Gall maint cerbydau modern ac amlder y traffig ymyrryd ag amwynder y preswylwyr.




Golygfa i’r gogledd ar hyd Heol Trefdraeth (28.9.15)

4.4.23 Er bod y rhan fwyaf o’r eiddo’n ymddangos i fod yn cael ei gynnal yn dda ac yn cael ei ddefnyddio, mae nifer o adeiladau heb fod mewn cystal cyflwr o ran cynnal a chadw ac addurniad allanol. Mae'r tŷ ar ddiwedd y teras ger Tafarn y Ship (Rhif 1) wedi bod mewn cyflwr gwael ers peth amser. Mae angen i’r Cyngor Sir fod â chysylltiad agos gyda’r gwaith o adnewyddu’r adeilad rhestredig hwn er mwyn sicrhau bod cymeriad yr adeilad yn cael ei gadw a'i wella a bod yr effaith negyddol presennol y cael ei leihau.

4.4.24 Mae Tafarn y Ship wedi’i nodi fel adeilad rhestredig  allweddol o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'n rhan o deras cryf o adeiladau ar raddfa ddomestig, ar hyd ochr orllewinol Heol Trefdraeth, pob un ohonynt wedi’u rhestru. Yn dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif, mae adeiladau llawr a hanner a deulawr y teras yn gyffredinol wedi’u rendro â phlastr garw a’u lliwio neu â wyneb rwbel carreg, noeth. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt do llechi neu lechi ffug ac mae’r holl hen orchuddion to o fetel rhychog wedi’u colli o'r teras. Fodd bynnag, mae’r simneiau unigol ac a rennir yn dal i fod yno, a’r  rhan fwyaf ohonynt mewn brics noeth. Mae’r to sment wedi ei growtio yn dal i fod yn Nhafarn y Ship.




4.4.25 Mae'r ffenestri codi gyda 4, 6 a 12 paen yn dal i fod yn y rhan fwyaf o’r adeiladau, ac mewn rhai achosion, gyda bwâu brics uwch eu pennau, sy’n cyfrannu at gadw cymeriad y stryd. Ceir enghreifftiau lle mae’r ffenestri codi wedi cael eu tynnu a’r agoriadau wedi'u hymestyn.

Rhif 9 Heol Trefdraeth (28.9.15)



4.4.26 Mae ymddangosiad modern tri phaen Rhif 5 Heol Trefdraeth yn gwyro oddi wrth gymeriad traddodiadol eiddo’r ardal. Mae'r ffenestri’n ymestyn i mewn i linell y toeon ac mae’r gorffeniad to fflat yn creu ymddangosiad dormer annodweddiadol. Ar y llawr gwaelod gall yr agoriad ffenestr mawr fod yn weddillion o ffenest siop.

Heol Trefdraeth (28.9.15)





4.4.27 Mae gan yr eiddo ar bob pen o'r teras fynedfa ochr i'r cefn, er bod y gerddi cefn yn ymddangos yn fach ac wedi’u terasu’n serth i mewn i'r llethrau coediog y tu ôl. Gall rhai fod o darddiad canoloesol gyda thomen sbwriel gynnar wedi’i chanfod yng nghyffiniau Rhif 1 Heol Trefdraeth. Mae gan Wel Cottage risiau llechi a cherrig i roi mynediad i'r cefn sy'n codi tuag at gefn yr adeiladau cyfagos. Mae'r grisiau wedi cadw llawer o'u cymeriad gwreiddiol.

17 Heol Trefdraeth (28.9.15)




4.4.28 Tŷ Solway, sy'n un o bâr o dai pâr (Rhif 15 a 17 Heol Trefdraeth) cyn y fynedfa i Hen Heol Trefdraeth. Mae'r ddau eiddo wedi’u rhestru fel enghreifftiau o bâr o dai nodweddiadol o Gwm Abergwaun, sydd dyddio o’n

gynharach yn y 19eg ganrif. Maent wedi’u gorchuddio â phlastr garw wedi’i liwio, gyda tho llechi ffug a simneiau bach brics ar y pen. I'r chwith mae adain ddeulawr fechan i’r gweision wedi’i gosod yn ôl, uwchben llawr ychydig yn fwy. Yn ogystal, i'r chwith mae “outshut’ cul yn wynebu’r blaen.  Mae ffenestri a drysau hanner gwydr o'r 20fed ganrif drwy’r tŷ. Yn ystod newidiadau ar ddiwedd yr 20fed ganrif gwaredwyd y ffenestri codi 4 paen, a'r to llechi wedi’i growtio ar adain y gweision.



4.4.29 Gyferbyn, mae cyn dafarn y Dinas Arms mewn lle amlwg yn yr ongl a ffurfir gan gyffordd Heol Trefdraeth a Quay Street. Mae'r gorffeniad allanol yn rwbel cerrig noeth ar y llawr cyntaf a phlastr garw wedi’i liwio ar y llawr gwaelod. Ar y llawr cyntaf mae dwy ffenestr godi fawr, 18 paen a ffenestr godi fawr 20 paen i’r llawr gwaelod, i gyd mewn casyn o bilastrau, fascia a chornis. Yn wynebu Heol Trefdraeth, mae cymysgedd o ychwanegiadau ‘lean-to’ a thai allan yn ychwanegu cymeriad a diddordeb i'r strydlun. Mae ganddynt doeon un rhediad gydag ymylon main.

Cyn dŷ tafarn Heol Trefdraeth (28.9.15)



Tyllau colomennod yn eiddo Bodmore (28.9.15)

4.4.30 Mae Heol Trefdraeth yn dringo’n raddol i fyny'r llethr arfordirol. Mae wal isel garreg wedi’i phwyntio yn gwahanu'r ffordd a'r llwybr troed o'r gerddi serth a’r rhandiroedd i gefn eiddo ar hyd Quay Street. Bu rhywfaint o dorri mewn i'r bryn er mwyn creu gofod awyr agored wedi’i derasu, er bod y bryn, ar y cyfan wedi cadw’i lethr naturiol. Mae rhandiroedd ar ben y llethr yn ychwanegu diddordeb a chyflwyno rhai strwythurau ar lefel isel. Gyferbyn, mae gan adeilad rhestredig Bodmore, ar ymyl  ardal adeiledig Cwm Abergwaun i gyfeiriad Dinas, reiliau haearn. Mae gan yr estyniad ar y talcen dyllau colomen.

Hen Heol Trefdraeth a 21 Hen Heol Trefdraeth (28.9.15)  Rhif 25 Hen Heol Trefdraeth (28.9.15)







4.4.31 Mae blaenau tai o boptu'r stryd wrth i Hen Heol Trefdraeth godi'n serth i mewn am y tir. Er nad oes unrhyw un o'r eiddo yma wedi'u rhestru, mae sawl un yn ddiddorol o safbwynt lleol, gyda ffenestri codi 2 a 4 paen, waliau rwbel cerrig a rendr llyfn. Fodd bynnag, mae triniaethau ffenestr o'r 20fed ganrif, gan gynnwys plastig Upvc, ffenestri dormer mawr gyda thoeau gwastad, cladin cerrig, absenoldeb simneiau a modurdai gyda thoeau fflat wedi erydu'r cymeriad gwreiddiol ac yn cael effaith negyddol ar yr Ardal Gadwraeth.

<u>**Ardal nodwedd 2 Crynodeb ac Argymhellion**</u>

**4.4.32 Mae amrywiaeth o derasau tai o'r 18fed a'r 19eg ganrif wedi'u hadeiladu yng nghalon yr ardal nodwedd. O fewn y terasau, mae amrywiaeth o siapiau, manylion a gorffeniadau, ond mae'r mwyafrif ohonynt wedi'u hadeiladu yn arddull leol Sir Benfro o galchfaen a gloddiwyd yn lleol, toeon goleddol llechi neu lechi ffug, simneiau brics neu garreg, amrywiaeth o ffenestri dormer a ffenestri codi fertigol gyda 2 i 16 paen. Mae'r mwyafrif o'r nwyddau dŵr glaw yn rai plastig o'r 20fed ganrif. Mae'r eiddo'n tueddu i fod ag amrywiaeth o orffeniadau rendr calch a sment, lle mae gorffeniad i'w gael.**

**4.4.33 Collwyd rhywfaint o’r manylion ond mae’n bosibl i hyn gael ei wrthdroi, gan adfer y defnydd o ffenestri a drysau pren traddodiadol. Dylai'r Cyngor annog adfer manylion traddodiadol trwy gyhoeddi canllawiau cynllunio atodol ar ffurf canllawiau dylunio. Mae datblygiadau eiddo modern ar Hen Heol Casnewydd yn arbennig yn tynnu oddi ar y cymeriad hanesyddol, yn enwedig pan fônt mewn lleoliadau amlwg ar gyffordd Hen Heol Trefdraeth a'r A478. Prin, mae’n debyg, fydd y cyfleoedd yn y dyfodol i ddisodli neu adnewyddu tai o'r fath mewn arddull mwy traddodiadol, ond dylid manteisio arnynt os bydd y cyfleoedd yn codi.**

**4.4.34 Mae annibendod gweledol sylweddol yn llinell y toeon ar gyffordd Bridge Street a Heol Trefdraeth, lle mae polion telegraff, gwifrau, goleuadau stryd ac arwyddion ffyrdd yn cyfuno i dynnu oddi wrth gymeriad yr ardal. Mae yna rywfaint o erialau teledu a dysglau lloeren yn wynebu'r briffordd, y mwyafrif wedi’u gosod yn ôl, yn llinell y toeon a'r simneiau. Dylid eu lleoli oddi wrth y briffordd a llinell yr awyr, lle bynnag y bo'n bosibl.**

**4.4.36 Nid oes fawr o sgôp i reoli neu leihau symudiadau traffig ymhellach o fewn yr ardal nodwedd hon, ble mae prif ffordd yr arfordir yn mynd drwy Gwm Abergwaun. Mae’r ffaith bod y ffordd mor gul yn tawelu’r traffig yn naturiol, er bod agosrwydd cerbydau yn cyfyngu ar symudiad cerddwyr ac yn tynnu oddi wrth amwynder preswylwyr.**

**Ardal Cymeriad 3: Glyn-y-Mel Road**

- sy’n cynnwys ardaloedd y llethrau arfordirol a hen chwareli, y Mwsland, Mill Race, hen danerdy a melin wlân.

4.4.37 Dylanwedir yn bennaf ar yr ardal hon gan ddatblygiad graddol, Glyn-y-Mel Road, ar hyd gwaelod y dyffryn a'r llethrau serth coediog. Mae ochr ddeheuol Bridge Street hefyd yn rhan o'r ardal nodwedd hon ac mae ganddi berthynas gref â glan yr afon, fel sydd gan Glyn-y-Mel Road.





Eiddo ar Bridge Street (28.9.15)

4.38 Ar ochr ddeheuol Bridge Street mae dau grŵp o eiddo carreg deulawr cadarn, rhestredig ac mae gan Rif 2 ffryntiad bach preifat a ffurfiwyd gan wal gerrig y bont.

4.4.39 Mae troad siarp i'r dde oddi ar Bridge Street i Ffordd Glyn-y-Mel. Mae'r eiddo cyntaf ar y chwith ar fin y ffordd. Mae’r ffordd wedyn yn lledu ac yn raddol mae lleoliad a phellter yr eiddo oddi wrth ei gilydd yn mynd yn fwy afreolaidd, gyda sawl eiddo wedi’u gosod yn ôl ac ar onglau gwahanol i’r ffordd, yn enwedig yng nghyffiniau hen fythynnod y Felin a’r capel, sydd wedi cadw naws cwrt.

4.4.40 Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo ar hyd Glyn-y-Mel Road wedi’u hadeiladu gyda chalchfaen a gloddiwyd yn lleol, ac yn amrywio mewn oedran o ddiwedd yr 17eg hyd at y 19eg ganrif. Yn gyffredinol maent wedi cael eu cynnal neu eu hadnewyddu i safon uchel, gyda rendr calch neu orffeniad carreg wedi’i bwyntio, ffenestri codi pren, toeon llechi, simneiau brics neu garreg, a rhywfaint o nwyddau dŵr glaw haearn bwrw. Mae gan lawer o’r gerddi waliau calchfaen a fyddai ar un adeg yn cadw anifeiliaid domestig megis moch, geifr neu ieir i mewn.



Sŵn yr Afon (28.9.15)

4.4.41 Mae yna rai eithriadau yma, gyda llond dwrn o adeiladau a godwyd i lenwi bylchau neu sydd wedi’u hadnewyddu mewn arddull fodern ymhlith yr eiddo hŷn sydd wedi cadw’u cymeriad, ond nid ydynt yn amharu'n sylweddol ar y swyn gwledig hanfodol yr ardal hon ac nid ydynt yn cael effaith negyddol sylweddol.

4.4.42 Yn draddodiadol, datblygodd yr eiddo ar y tir corsiog ar y stryd hon, wrth ymyl ceg yr afon, oherwydd gweithgareddau'n gysylltiedig â datblygiad a defnydd y Felin, ac yn ddiweddarach, blasty Glyn-y-Mel a'r gweithgarwch amrywiol o fewn ei diroedd . Dargyfeiriwyd yr afon uwchben Glyn-y-mel i ffurfio ffrwd a chored i'r felin ddŵr, ac yma y proseswyd y gwlân cyn ei wneud yn frethyn.





10 Heol Glyn y Mel a Chapel Glyn y Mel (28.9.15)

4.4.43 Mae Rhifau 10 i 20 Glyn-y-Mel Road wedi'u rhestru yn radd II ac fe'u hadeiladwyd yn wreiddiol fel rhan o adeiladau'r felin. Maent bellach wedi'u troi'n fythynnod.

4.4.44 Roedd yr ystâd wreiddiol yn cynnwys llawer o dai allan a melin ddŵr (sydd wedi mynd erbyn hyn), ond mae'r adeiladau sy'n weddill wedi eu troi'n fythynnod gwyliau yn y 1960au a'r 70au. Gerllaw hefyd mae bwthyn carreg sydd â thŵr cloch ac a fu unwaith, o bosibl, yn gapel i'r ystâd.



23 Ffordd Glyn y Mel (28.9.15)

4.4.45 Mae Rhif 23 Ffordd Glyn-y-Mel wedi cadw llawer o'i nodweddion gwreiddiol, yn wahanol i'r gorffeniadau modern, agoriadau ffenestri a deunyddiau sydd yn yr eiddo cyfagos.



Ffordd Glyn y Mel (28.9.15)

4.4.46 Mae Cwm Abergwaun wrth aber yr Afon Gwaun, ac ar hyd ffordd Glyn-y-Mel mae'r llethrau coediog yn allweddol i gymeriad yr ardal. Mae tir y tu cefn i 1-31 Glyn-y-Mel Road wedi'i droi'n erddi terasog cymhleth, sy'n torri mewn i'r llethr y tu ôl a thoddi mewn i'r ardal goediog y tu hwnt. Mae gan Rifau 27- 31 erddi blaen bychain wedi'u hamgáu gan waliau cerrig solet ac maent wedi'u gosod uwchben lefel y ffordd.



27 Heol Glyn y Mel (28.9.15)

4.4.47 Yn ddiweddar, mae Rhif 27 Glyn-y-Mel Road, wedi cael estyniad lolfa haul, i'r ochr. Mae gan yr eiddo le amlwg yn y strydlun. Mae sicrhau nad yw'n cael effaith negyddol ar gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth a bod deunyddiau derbyniol yn cael eu defnyddio yn allanol, yn ystyriaethau pwysig.



4.4.48 I'r de ac i'r gorllewin o'r dref mae'r ardaloedd llethr arfordirol sy'n cynnwys y llwybr troed ar hyd glan yr afon i hen chwareli Blaen y Delyn a Phistyll Hotch a'u hodynau calch, a'r Tanerdy ar ben y bryn. Mae'r ardal hon yn awr yn tyfu'n wyllt ac mae'r coetir trwchus yn ychwanegu at gymeriad gwledig diarffordd yr ardal.

Odyn galch Llwybr Glan yr Afon (28.9.15)



Yr olygfa i’r de ar draws Bridge Street (28.9.15)

**Ardal Nodwedd 3 Crynodeb ac Argymhellion**

**4.4.49 Mae amrywiaeth o fythynnod o ddiwedd y 18fed ganrif a’r 19eg ganrif, a’r**

**mwyafrif ohonynt wedi’u hadeiladu yn arddull leol Sir Benfro o galchfaen a gloddiwyd yn lleol, toeon llechi goleddol, simneau brics neu garreg, ffenestri codi fertigol ac amrywiaeth o orffeniadau rendr calch a sment lle mae gorffeniad i’w gael. Fodd bynnag, mae yno hefyd nifer o adeiladau modern gyda gorffeniadau modern, gan gynnwys ‘pebble dash’. Mae'r un agwedd yn berthnasol i’r ardal hon ag Ardaloedd Nodwedd 1 a 2 sef y dylid cymryd mantais o unrhyw gyfle posibl i gyflwyno neu adfer nodweddion traddodiadol.**

**4.4.50 Collwyd rhywfaint o’r manylion ond mae’n bosibl i hyn gael ei wrthdroi, gan adfer y defnydd o ffenestri a drysau pren traddodiadol. Dylai'r Cyngor annog adfer manylion traddodiadol trwy gyhoeddi canllawiau cynllunio atodol ar ffurf canllawiau dylunio.**

**4.4.51 Nid oes unrhyw ardal agored, hygyrch i’r cyhoedd o fewn yr ardal nodwedd hon [mae Mwsland yn eiddo preifat ac yn hygyrch dros bontydd troed yng nghefn yr eiddo], ac mae Glyn-y-Mel Road yn troi’n ffordd breifat i Blas Glyn-y-Mel. Yn gyffredinol, mae parcio wedi’i gyfyngu i fannau ar y stryd, lle mae’r ffordd yn lledu er mwyn i geir basio’i gilydd. Mewn rhai achosion, mae ceir yn cael eu parcio o flaen yr eiddo, ac mae hyn yn effeithio ar gymeriad gwledig y stryd a’r eiddo. Mewn mannau eraill ar hyd Glyn-y-Mel Road mae’r ffordd yn lledu. Yma, fodd bynnag, mae’r terfynau traddodiadol yn nodweddion cymeriad pwysig y dylid eu cadw, sydd felly, o angenrheidrwydd, yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer parcio oddi ar y stryd.**

**4.4.53 Nid oes unrhyw gelfi stryd yn yr ardal nodwedd hon. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r tai wedi'u gosod yn ôl o'r ffordd, ac mae ganddynt blotiau mwy eang, sy'n rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer gofod awyr agored.**

**4.4.54 Yn gyffredinol ychydig o annibendod gweledol sydd yn llinell y toeon, er bod rhai dysglau lloeren wedi'u gosod ar ddrychiad blaen yr adeiladau ger Heol Trefdraeth. Mae gorffeniadau'r terfynau'n helpu i ddiffinio cymeriad arbennig yr ardal hon, ac maent wedi'u hadeiladu o rwbel carreg yn bennaf. Byddai canllawiau ar gadw waliau ffiniol a phriodoldeb y gorffeniadau yn ddefnyddiol i sicrhau bod gorffeniadau traddodiadol yn cael eu blaenoriaethu.**

### 4.5 Adeiladau'r Ardal Gadwraeth

*Mathau o Adeiladau*

4.5.1 Nid oes unrhyw Henebion Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth ond mae gan y dref nifer o adeiladau rhestredig Gradd II a Phlas Glyn-y-Mel yn Radd II *, yn ogystal ag adeiladau heb eu rhestru sy'n cyfrannu at y strydlun ac yn ychwanegu diddordeb o fewn yr Ardal Gadwraeth.

4.5.2 Mae adeiladau a therasau unigol sy'n werth eu crybwyll am eu bod yn cyfrannu at gymeriad cyffredinol y dref, sef:

- Adeilad Skirmisher
- Plas Glyn-y-Mel a bwthyn Glyn-y-Mel
- Wal y Cei a'r pier
- Tafarn y Ship a theras Heol Trefdraeth y mae'n rhan ohono
- Quay Street
- Capel Quay Street
- Ardal yr hen felin, Glyn-y-Mel Road
- Y bont garreg un bwa
- Eiddo Cleals, a elwir yn lleol yn Capel Glyn-y-mel.Cyn dafarn y Dinas Arms, Heol Trefdraeth

*Adeiladau Rhestredig*

4.5.3 Mae adeilad rhestredig yn un sy'n cael ei gynnwys ar Restr Statudol y llywodraeth o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig. Mae'r adeiladau hyn yn cael eu diogelu gan y gyfraith ac mae angen caniatâd oddi wrth Gyngor Sir Penfro cyn i unrhyw waith addasu, ymestyn neu ddymchwel gael ei

gynnal. Mae gan Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun 35 o adeiladau rhestredig, dim un Gradd I, 1 Gradd II * a 34 Gradd II. Mae'r rhan fwyaf o adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth yn dod o ddechrau'r 19eg ganrif.

Adeiladau mewn Perygl

4.5.4 Mae nifer o adeiladau hanesyddol sydd angen gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio arferol, yn enwedig yng nghanol Cwm Abergwaun. Yn ogystal, mae nifer o’r adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth hefyd yn dangos arwyddion o esgeulustod, dadfeiliad a dirywiad oherwydd diffyg cyllid neu gynnal a chadw ac mae’r rhain yn difetha cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

4.5.5 Mae dau adeilad neu fan mewn perygl [16], sef:

1. Rhif 1 Heol Trefdraeth, (er bod peth gwaith wedi’i wneud yn ystod 2015 i wella’i allu i wrthsefyll y tywydd)
2. Y Cei, gan gynnwys y llithrfa, y bolard a’r grisiau

Mae dau strwythur rhestredig yn cael eu nodi fel rhai sydd mewn perygl ar y gofestr adeiladau mewn perygl, sef

1. Y rheiliau haearn ar eiddo Bodmore sydd angen mân waith atgyweirio
2. Rhif 9 Heol Trefdraeth sydd angen atgyweirio’r rendr a fframiau’r ffenestri.

4.5.6 Yn ogystal, mae gan y safle gwag rhwng 3 Quay Street a maes parcio Quay Street sylfaen goncrid a ffensys diogelwch o’i amgylch. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y safle hwn, yn 2009, ar gyfer caffi / bar a fflatiau preswyl. Er bod y warws rhychiog wedi cael ei ddymchwel yn ddiweddar, nid oes cais wedi’i gyflwyno ers 2009 ac mae'r safle mewn perygl o aros yn wag a hyll gan effeithio’n negyddol ar y rhan hon o'r Ardal Gadwraeth.

4.5.7 Mae'n bwysig monitro cyflwr adeiladau a safleoedd sydd mewn perygl a blaenoriaethu cyllid ar gyfer yr adeiladau hynny a nodwyd ar Gofrestr Adeiladau Mewn Perygl y Cyngor Sir. Efallai bydd cyfleoedd cyllido ar gyfer adeiladau hanesyddol ar gael gan Cadw neu ffynonellau eraill, er gall y meini prawf cymhwyso fod yn llym[17].

*Adeiladau allweddol heb eu Rhestru / adeiladau cadarnhaol*

4.5.8 Yn ogystal â nifer o'r adeiladau rhestredig, mae gan yr Ardal Gadwraeth nifer o adeiladau heb eu rhestru sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal. Yn

[16] Yn unol â’r arolwg o Adeiladau Mewn Perygl, Medi 2014.

[17] Cadw website http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/grants/historicbuildings/?lang=en as at Sept 16

gyffredinol, mae'r adeiladau 'cadarnhaol' hyn yn adeiladau unigol neu grwpiau o adeiladau sy'n cadw'r cyfan, neu gyfran uchel, o'u manylion pensaernïol gwreiddiol ac sy'n ychwanegu diddordeb a bywiogrwydd i olwg yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Clwb Hwylio Bae Abergwaun (rhan ohonno)
- 3 i 11 Quay Street
- 25 Hen Heol Trefdraeth
- 2 i 8 Heol y Cei
- 27 Glyn-y-Mel Road

*Deunyddiau Adeiladu a Manylion Lleol*

4.5.9 O fewn yr Ardal Gadwraeth, mae'r deunyddiau adeiladu traddodiadol fel a ganlyn:

• Waliau:

Rwbel cerrig a chladin rendr wedi'i liwio sydd amlycaf. Mae yma hefyd gerrig wedi'u pwyntio a rendr wedi'i wyngalchu ac mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau wedi'u hadeiladu o garreg a gloddiwyd yn lleol. Yr eithriad i hyn yw'r ychydig iawn o eiddo modern neu eiddo a adnewyddwyd mewn dull anghydnaws, sef gorffeniad 'pebble dash' neu adeiladwaith bloc concrid.

• Toeon a ffenestri

Mae gan y rhan fwyaf o'r adeiladau doeon gyda llethr 30 i 40 gradd wedi'u gorchuddio â llechi naturiol neu lechi ffug lliw du/llwyd, simneiau brics coch neu gerrig llwyd a theils crib clai, nwyddau dŵr glaw haearn bwrw, a ffenestri codi fertigol, pren,wedi'u peintio ac a osodwyd o leiaf 100mm yn ôl o wyneb yr adeilad. Mae gan rai o'r adeiladau llai ffenestri dormer, gyda thoeon ar ongl neu doeon fflat, gan fod y llawr cyntaf yn rhannol yn y to. Ceir hefyd nifer bychan iawn o enghreifftiau o estyniadau to fflat ar y cefn, modurdai a ffenestri bae ar y llawr gwaelod.

• Drysau:

Mae llawer o'r adeiladau wedi cadw neu adfer drysau pren, ac yn arbennig, rhai gyda hanner y drws yn ffenestri gwydr sengl neu 4 paen sy'n nodweddiadol o ddyddiad adeiladu a manylion yr eiddo ac sy'n ychwanegu swyn a chymeriad i'r adeiladau. Yn aml nid yw steil y drysau gwreiddiol wedi'u hailadrodd, ac mae'r gwaith haearn wedi crwydro oddi wrth yr arddulliau traddodiadol. Ceir nifer o ddrysau plastig ledled yr Ardal Gadwraeth sydd yn cael effaith andwyol ar gymeriad gwreiddiol yr ardal. Mae drysau'n gyffredinol wedi'u gosod yn ôl ac nid oes ganddynt fanylion addurniedig, cynteddau na chanopïau.

*Manylion lleol yn cynnwys:*

• Rheiliau:

Nid yw rheiliau haearn traddodiadol yn nodweddiadol o'r Ardal Gadwraeth hon. Maent y tu allan eiddo Bodmore sydd ar fin yr A478 wrth iddi ddringo allan o Gwm Abergwaun. Mae'r rheiliau haearn, wedi'u peintio'n ddu, yn eistedd ar ben meini copa sydd ar ben wal o rwbel carreg wrth ymyl y ffordd. Mae rheiliau haearn, o ddyluniad syml a giât gardd gyda phwyslais llorweddol hefyd yn New Villa, ger y cei.

• Gwaith addurnol haearn gyr a haearn bwrw: Mae rhai nwyddau dŵr glaw haearn bwrw yn dal i fod, ond mae llawer ohonynt wedi cael eu newid am rai a wnaed o ddeunyddiau modern.

***Blaenau siopau, hysbysebion ac arwyddion***

4.5.10 Nid oes unrhyw adeiladau manwerthu o fewn yr Ardal Gadwraeth, er bod ychydig o ffryntiau siopau Fictoraidd wedi'u cadw. Mae rhai o'r arwyddion ffyrdd a'r goleuadau traffig, er yn angenrheidiol er mwyn rheoli symudiad y traffig a cherddwyr, wedi'u lleoli'n wael mewn perthynas ag adeiladau rhestredig ac yn cyfrannu at annibendod gweledol sy'n tynnu sylw. Mae'r gyffordd rhwng Bridge Street, Heol Trefdraeth a Glyn-y-Mel Road yn anniben yn weledol. Mae arwyddion traffig hanfodol yn cyfrannu at yr annibendod hwn. Y polyn telegraff, gwifrau ac arwyddion achlysurol yr asiantaethau gwerthu tai sy'n amharu'n bennaf ar olwg yr ardal.

***Pensaernïaeth eglwysig***

4.5.11 Mae gan Gwm Abergwaun ddau gyn adeilad eglwysig sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd fel tai preswyl, gan adlewyrchu'r dirywiad crefyddol a fu yn ystod yr 20fed a'r 21ain ganrif. Maent yn dal yn amlwg o ran diddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth ac roeddent yn darparu cyfleoedd i'r gymuned a morwyr addoli yn y gorffennol.

**Hen Gapel y Methodistiaid, Heol y Cei**

4.5.12 Adeiladwyd yr hen gapel Methodistaidd yn Quay Street yn 1902 ac yn ddiweddarach fe'i defnyddiwyd fel eglwys. Fe'i newidiwyd yn llety gwyliau yn 2004. Mae llawer o'r manylion pensaernïol gwreiddiol ar y tu allan wedi'u cadw gyda'r drws bwaog a'r ffenestri wedi'u gosod mewn cilfachau o fewn waliau cerrig wedi'u pwyntio. Fodd bynnag, mae ffenestri to, gwastad â'r to, wedi'u gosod.

**Cleals,** a elwir yn lleol yn Capel Glyn-y-Mel 4.5.13 Adeiladwyd yr adeilad hwn, o ddechrau'r 19eg ganrif, mewn arddull gothig ar ystad Plas Glyn-y-Mel. Mae ganddo gwt clychau bach ym mhen y ffordd a simnai bach brics y pen arall. Nid yw'r cofnod adeilad rhestredig ar gyfer yr eiddo yn cadarnhau bod yr adeilad wedi'i ddefnyddio fel capel yn y gorffennol, er bod ffynonellau eraill yn awgrymu bod capel ar yr ystad.

**Ffactorau negyddol (maint yr ymyrraeth neu ddifrod**)

4.5.14 Mae nifer o elfennau sy'n tynnu oddi wrth gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac sy'n cynnig cyfleoedd posibl ar gyfer eu gwella. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Effaith gynyddol newidiadau ac estyniadau i lawer o adeiladau hanesyddol sydd wedi peri colled sylweddol o nodweddion traddodiadol, gan erydu cymeriad a golwg arbennig yr ardal;
- Mae nifer o’r adeiladau rhestredig a rhai heb eu rhestru, mewn cyflwr gwael;
- Tir y cyhoedd wedi'i ddylunio, ei adeiladu a’i gynnal a chadw’n wael, gan gynnwys wyneb caled anaddas, biniau sbwriel, meinciau a manylion tir y cyhoedd;
- Datblygiad anghydnaws;
- Symudiadau traffig drwy'r dref yn symud drwy strydoedd cul, gan ddal y traffig yn ôl a chreu sŵn, effeithio ar symudiad cerddwyr a chreu amwynder i’r preswylwyr;
- Dymchwel warws gwag ar y cei yn ddiweddar wedi creu ffryntiad hyll ar Quay Street;
- Cynnal a chadw gwael y maes parcio anffurfiol yn 2-8 Quay Street a diffiniad gwael i’r safle;
- Mae angen atgyweirio neu wella peth o'r eiddo ar hyd Heol Trefdraeth, a gall agosrwydd yr eiddo at ymyl y ffordd a symudiad y traffig wneud cynllunio ar gyfer adnewyddu yn gymhleth.

4.5.15 Gall mae’n bosib lleihau graddau'r golled, ymyrraeth a’r difrod os roddir sylw penodol i ddylunio sensitif, y dewis o ddeunyddiau adeiladu a graddfa'r datblygiad.

4.5.16 Bu colled raddol o gymeriad o fewn yr Ardal Gadwraeth gyda thuedd i symud oddi wrth orffeniadau traddodiadol, yn enwedig ar gyfer datblygiadau adeiladu cymharol newydd. Mae’r defnydd o ddrysau a ffenestri plastig Upvc wedi lleihau cymeriad hanesyddol yr Ardal Gadwraeth. Fodd bynnag, mae prosiectau adnewyddu diweddar wedi cyfrannu at ddehongliadau modern o’r arddull frodorol, gan hefyd gyflwyno balconïau allanol, llawr cyntaf, cyfoes o ansawdd da a manylion cydnaws.

**Ardaloedd niwtral**

4.5.17 Mae datblygiadau mwy modern yn yr Ardal Gadwraeth yn tueddu i gael effaith niwtral ar yr Ardal Gadwraeth, heb na chadw na gwella’i chymeriad. Mae rhai o'r ardaloedd / adeiladau hyn yn cael eu nodi isod:

- Dylunio anghydnaws y man agored ffurfiol yn Bridge Street, heb berthynas â'i amgylchedd hanesyddol. Mae'r safle hwn yn gyfle i flasu treftadaeth forwrol Cwm Abergwaun
- Y safle gwag ar Quay Street
- Nid yw pier y cei’n cael ei ddefnyddio’n ddigonol fel man ar gyfer dehongli datblygiad hanesyddol ac adeiladau allweddol yr ardal.
- Datblygiadau mewnlenwi modern ar Glyn-y-Mel Road
- Cysylltiadau gwael i gerddwyr rhwng Cwm Abergwaun a glan yr afon

4.5.18 Ynghyd â'r adeiladau a'r safleoedd negyddol a nodwyd eisoes, gall yr ardaloedd niwtral hefyd gynnig cyfleoedd gwella posibl o fewn yr Ardal Gadwraeth

**4.6 Crynodeb o Gymeriad yr Ardal Gadwraeth**

4.6.1 Mae cymeriad ardal Cwm Abergwaun yn gysylltiedig â'i safle arfordirol, cysgodol yn wynebu'r gogledd, ceg yr afon, llethrau arfordirol gyda chreigiau calchfaen, a'i agosrwydd at Iwerddon.

4.6.2 Ers cyfnod y Rhufeiniaid mae'r nodweddion hyn wedi denu pobl i ymelwa ar yr adnoddau naturiol sydd ar gael yn yr ardal ac i gael bywoliaeth yma drwy bysgota penwaig, masnachu arfordirol, adeiladu cychod, cynhyrchu yn y felin ddŵr, y tanerdy, bragdai, ac ati, ac mae datblygiad y diwydiannau hyn wedi arwain at yr angen am weithdai, storfeydd a llety ar hyd basn yr harbwr, ar hyd glan yr afon, i fyny'r bryn a elwir bellach yn Heol Trefdraeth, ac i'r de ar hyd yr afon i Glyn-y-Mel.

4.6.3 Ers y chwyldro diwydiannol ar ddiwedd y 1800au, mae'r dref wedi'n raddol ildio i'r angen am well mynediad i gerbydau drwy'r dref, ar hyd yr hyn sydd bellach A487, gan golli rhai adeiladau er mwyn caniatau hyn, ac yn awr mae tagfeydd difrifol i draffig sy'n teithio drwy'r dref, yn enwedig yng nghyffiniau rhif 6 Heol Trefdraeth.

4.6.4 O ganlyniad i ehangu'r fferi i Iwerddon a datblygiad tref Abergwaun, daeth yr holl weithgareddau traddodiadol yma i ben yn raddol, ond mae arallgyfeirio gweithgareddau'r harbwr wedi cadw'r dref yn hyfyw, ac mae wedi datblygu dros y 50 mlynedd diwethaf yn bennaf fel cyrchfan i dwristiaid.

4.6.5 Mae'r rhan fwyaf o adeiladau'r dref yn cael eu cynnal a'u cadw'n weddol dda ac mae'r harbwr a'r cei sydd gerllaw llethrau coediog aber yr afon, yn hardd iawn o edrych arnynt o'r gogledd a'r gorllewin, yn ogystal ag o ardal yr harbwr wrth edrych ar draws yr harbwr tuag at yr arfordir garw ac allan i'r môr.

4.6.6 Mae lleoliad yr adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth yn adlewyrchu gweithgaredd hanesyddol yr ardal, h.y. y bythynnod a adeiladwyd o gerrig syml ger y felin, ar hyd yr afon oddi ar Glyn-y-Mel Road, a'r bythynnod ar yr harbwr a adeiladwyd i ddiwallu anghenion y fasnach bysgota ac adeiladu cychod.

4.6.7 Fodd bynnag, collwyd rhywfaint o hunaniaeth gyda dymchweliad rhai adeiladau allweddol, collwyd peth manylion pensaernïol, mae rhai safleoedd heb eu datblygu ers cryn amser, a bu adeiladu mwy diweddar ar hyd Glyn-y-Mel Road, ond ar y cyfan mae swyn hanesyddol a chymeriad yr harbwr hanesyddol hwn a'r dref wedi aros yn gyflawn.

# 5. Adolygiad Ffiniau ac Argymhellion

5.1.1 Mae ffin yr Ardal Gadwraeth bresennol yn gysylltiedig â nodweddion topograffig ac yn dilyn llinell penllanw cymedrig yr harbwr, ar hyd pen y bryn i'r dwyrain o erddi cefn eiddo Heol Trefdraeth, ar ben uchaf llethr arfordirol y gorllewin sy'n cysylltu ag Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun ym mhen deheuol cwrs iseldirol yr afon. Fe'i dynodwyd yn wreiddiol er mwyn diogelu gosodiad yr ardal ac mae’r rheswm hwn yn parhau i fod yn ddilys hyd heddiw. Ychydig o bwysau a gafwyd ar unrhyw ran o'r ffin bresennol, ac mae hyn yn adlewyrchiad rhannol o'r dynodiad a’r amddiffyniad a roddir gan bolisïau cynlluniau datblygu, gan gynnwys dynodiad lletem las o dan y Cynllun Datblygu Lleol, a fabwysiadwyd 28 Chwefror, 2013.

5.1.2 Mae ymyl orllewinol y ffin yn cysylltu â ffin Ardal Gadwraeth Tref Abergwaun ac felly dylai aros yn ddigyfnewid. I'r de mae'r ffin yn dilyn pen uchaf llethr arfordirol y gorllewin ac yn cynnwys yr hen danerdy, chwareli ac odynau calch sy'n rhan o gymeriad a 'diddordeb arbennig' yr Ardal Gadwraeth a dylai’r ffin hon hefyd aros yn ddigyfnewid. Mae ochr ddwyreiniol y ffin yn rhedeg ar hyd pen uchaf y gerddi hanesyddol ar hyd Heol Trefdraeth gan gynnwys ardaloedd y llethr arfordirol yn ogystal â'r ffordd, sy'n ffurfio rhan o gymeriad y lleoliad ac nid oes angen ei newid.

5.1.3 Mae holl adeiladau’r dref o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth ac er bod rhai ohonynt wedi cael eu newid rywfaint neu wedi cael ffenestri/drysau newydd Upvc, mae gan yr adeiladau hunaniaeth grŵp cryf, maent yn atgyfnerthu cymeriad a diddordeb arbennig y dref hanesyddol hon, a dylid eu cadw. Gydag amser, mae potensial i adfer y nodweddion dylunio hyn.

5.1.4 Fel rhan o'r broses Gwerthuso Cymeriad, ymgymerwyd ag arolwg trylwyr o ffiniau presennol yr Ardal Gadwraeth. Roedd hyn yn cynnwys asesiad o:

- Golwg y gwahanol barthau cymeriad
- Dadansoddiad o berthnasau gofodol
- Cyflwr a ffabrig yr adeiladau
- Effaith gadarnhaol/negyddol y rheolaethau ar yr Ardal Gadwraeth
- Hanes yr ardal a'i datblygiad

5.1.5 Mae’r broses o ailwerthuso ffiniau presennol yr Ardal Gadwraeth wedi nodi rhai addasiadau posibl i eithrio:

Lleoliadau lle mae’r ffin yn cynnwys adeiladau neu safleoedd sydd ddim bellach yn rhannau annatod o ansawdd a ffurf yr Ardal Gadwraeth ei hun;

Ardaloedd o ddatblygu newydd sydd ddim yn cynnal nac yn gwella cymeriad na golwg yr ardal.

5.1.6 Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i ffiniau’r Ardal Gadwraeth. Mae'r ffin bresennol yn gwarchod ardaloedd arbennig sy'n parhau i fod yn ddiddorol yn bensaernïol neu’n hanesyddol. Er mwyn cadw neu wella cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod datblygiadau’r dyfodol yn rhoi sylw i'r hyn sy’n bodoli eisoes; deunyddiau, arddull, manylion, ffurf, graddfa, llinellau’r toeon ac adeiladau fel eu bod yn gydnaws â’r hyn sydd o'u cwmpas. Dylai golygfeydd pwysig a mannau agored sy'n bodoli gael eu gwarchod.

# 6. Crynodeb o'r Materion dan sylw

6.1.1 Mae'r gwerthusiad wedi nodi nifer o faterion sy'n cael effaith andwyol ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Y materion hyn fydd wrth wraidd cynigion rheoli ar gyfer yr Ardal Gadwraeth iawn, gan nodi cyfleoedd posibl, pwysig ar gyfer gwella a gwarchod yr ardal.

### Safleoedd ac adeiladau negyddol / niwtral

6.1.2 Mae'r gwerthusiad wedi nodi adeiladau a safleoedd penodol 'negyddol' h.y. yr adeiladau a'r safleoedd hynny sy'n tynnu oddi ar gymeriad a golwg arbennig yr Ardal Gadwraeth ac sydd felly'n cynnig cyfle ar gyfer eu gwella. Yn ogystal, ar y cyfan, ychydig iawn mae datblygiadau mwy modern wedi'i gyfrannu i gymeriad yr ardal, o ran ei gadw na'i wella. O'r herwydd, mae llawer o'r adeiladau mwy modern yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u nodi naill ai fel adeiladau neu safleoedd negyddol neu niwtral.

### Colli manylion pensaernïol a mân addasiadau i adeiladau hanesyddol

6.1.3 Mae llawer o'r adeiladai nas rhestrwyd, a rhai o'r adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth, yn dioddef yn sgil colli manylion pensaernïol gwreiddiol a deunydd adeiladu. Yn wahanol i adeiladau rhestredig, fel arfer gall newidiadau i adeiladau heb eu rhestru, yn yr Ardal Gadwraeth, gael eu gwneud o dan hawliau datblygu a ganiateir, heb yr angen am ganiatâd cynllunio, oni bai bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei le. O ganlyniad, mae canran sylweddol o'r adeiladau sydd heb eu rhestru yn yr Ardal Gadwraeth wedi colli nodweddion traddodiadol, ac mae hynny'n gwanhau cymeriad a golwg cyffredinol yr ardal. Mae'r golled gynyddol o ddeunyddiau adeiladu a manylion gwreiddiol yn amharu ar gymeriad a golwg yr ardal.

### Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau (Adeiladau mewn Perygl)

6.1.4 Mae nifer fechan o adeiladau hanesyddol sydd angen gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio cyffredinol. Hefyd, mae adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth sy'n dangos arwyddion o esgeulustod, dadfeiliad a dirywiad oherwydd diffyg cyllid neu gynnal a chadw ac maent ar hyn o bryd yn cael effaith andwyol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Mae dau adeilad rhestredig 'mewn perygl' a dau sydd wedi'u nodi fel adeiladau 'bregus' yn yr Ardal Gadwraeth, sydd ar Gofrestr Adeiladau Mewn Perygl y Cyngor. Mae'n bwysig i'w cyflwr gael ei fonitro a, pan fydd ar gael, blaenoriaethu cyllid ar gyfer yr adeiladau hynny a nodwyd ar Gofrestr Adeiladau mewn Perygl y Cyngor Sir fel rhai sydd mewn perygl mawr neu'n fregus.

### Rheoli datblygiadau newydd

6.1.5 Nid yw rhai datblygiadau modern (o ddiwedd yr 20fed ganrif yn bennaf) yn cyd-fynd â chymeriad hanesyddol a golwg yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn wir yn achos estyniadau bychain a modurdai yn ogystal â chynlluniau datblygu mwy.

**Tir y cyhoedd**

6.1.6 Mae'r gwerthusiad yn dangos bod, ledled yr Ardal Gadwraeth, achosion lle mae tir y cyhoedd wedi'i gynllunio, ei adeiladu neu'i gynnal yn wael. Mae manylion hanesyddol o fewn tir y cyhoedd wedi'u cadw i gryn raddau yn ardal yr harbwr ond mae deunyddiau a dyluniadau naill ai'n anaddas neu'n anghydnaws mewn mannau eraill. Mae parcio ar y stryd yn cael ei gyfyngu gan led y briffordd ac mae'n ymyrryd â llif y drafnidiaeth.

**Mannau agored, tirlunio a rheoli coed**

6.1.7 Tra bo'r gwerthusiad wedi nodi bod nifer o fannau agored a gwyrdd pwysig o fewn yr Ardal Gadwraeth, mae yna nifer o'r strydoedd sydd ag ychydig neu ddim tirlunio. Er bod yr Ardal Gadwraeth yn amlwg wledig o ran cymeriad, mae tirlunio priodol yn cynnig cyfleoedd i wella nifer o'r mannau cyhoeddus a'r strydoedd drwy ychwanegu gwead, lliw a chynyddu bioamrywiaeth. Dylid nodi, fodd bynnag, fod cyllid yn gyfyngedig ac ysbeidiol a gall cyfleoedd ar gyfer gwella gael eu cyfyngu gan gyllid.

# 7. Cynigion Rheoli

7.1.1 Mae'r gwerthusiad cymeriad wedi adnabod y nodweddion sy'n cyfrannu at gymeriad arbennig a gwahanol yr Ardal Gadwraeth, a'r hyn y dylid ei gadw a'i wella. Mae'r cynigion rheoli canlynol yn adeiladu ar y nodweddion negyddol sydd hefyd wedi'u nodi, er mwyn darparu cyfres o faterion ac argymhellion ar gyfer gwella a newid. Bydd yn bwysig i Gyngor Sir Benfro roi'r argymhellion canlynol ar waith fel rhan o'i strategaeth reoli ar gyfer Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun.

7.1.2 Bwriad y Cynigion Rheoli canlynol yw sicrhau bod cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael ei gadw a'i wella, trwy ddarparu cyfres o argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol yn seiliedig ar y materion a godwyd yng Ngwerthusiad yr Ardal Gadwraeth.

7.1.3 Mae'r cynigion yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella a pholisïau i osgoi

newid niweidiol; mae nifer o'r rhain yn gyfrifoldeb i'r Cyngor Sir. Mae'r cynigion wedi'u hysgrifennu gyda'r ymwybyddiaeth bod adnoddau'r Cyngor ar gyfer rheoli Ardaloedd Cadwraeth yn brin, ac felly bod angen eu blaenoriaethu. Mae cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor yn golygu bod y cynigion y mae'n gyfrifol amdanynt yn debygol o gymryd mwy o amser i'w gweithredu nag sy'n ddymunol.

7.1.4 Dylid monitro ac adolygu Gwerthusiad Cymeriad yr Ardal Gadwraeth a'r Cynigion Rheoli yn rheolaidd. Bydd y Gwerthusiad Cymeriad a'r Argymhellion Rheoli yn eistedd ochr yn ochr â'r polisïau cadwraeth yn y Cynllun Datblygu Lleol ac yn ategu ei nod o ddiogelu a gwella Ardaloedd Cadwraeth y Sir.

***Safleoedd ac adeiladau Negyddol / niwtral - cyfleoedd ar gyfer gwella***

7.1.5 Cynnig:

- Sicrhau bod adeiladau neu safleoedd negyddol / niwtral yn cael eu hailddatblygu gyda datblygiadau cyfoes a ddyluniwyd yn dda, sydd naill ai'n cynnal neu'n gwella cymeriad unigol ardaloedd o fewn Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun. Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd ystyried nodweddion a chymeriad pwysig yr ardal fel y'u hamlinellwyd yn y ddogfen hon. Dylid gwrthsefyll unrhyw ddyluniadau adeilad gwael neu amhriodol.

- Ble mae adeilad neu safle wedi'i nodi fel rhywbeth sy'n cael effaith negyddol ar yr Ardal Gadwraeth, bydd y Cyngor yn ceisio gwella'r adeilad neu'r safle hwnnw.

- Bydd y Cyngor, ar ôl ymchwil a dadansoddi pellach, yn ceisio paratoi briffiau dylunio ar gyfer safleoedd 'negyddol' amlwg.

- Bydd y Cyngor, ar ôl ymchwil a dadansoddi pellach, yn ceisio paratoi briff cynllunio a dylunio ar gyfer safleoedd 'negyddol' amlwg.

***Colli manylion pensaernïol a mân addasiadau i adeiladau hanesyddol***

7.1.6 Cynnig:

- Annog perchenogion eiddo i wrthdroi addasiadau anghymarus ac ailosod nodweddion pensaernïol fel ffenestri, drysau a waliau terfyn ayyb ar adeiladau hanesyddol yn arddull a defnyddiau'r gwreiddiol, yn enwedig ffenestri pren, simneiau a defnyddiau toeon gwreiddiol.

- Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi canllawiau cynghori a nodiadau arfer orau a fyddai'n helpu i gynnal cymeriad hanesyddol a golwg yr ardal ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o werth a phwysigrwydd yr Ardal Gadwraeth.

***Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau (Adeiladau mewn Perygl)***

7.1.7 Cynnig:

- Parhau i ddiweddaru Cofrestr Adeiladau mewn Perygl 2014, sef cofnod o adeiladau rhestredig o fewn y dref sydd mewn perygl oherwydd esgeulustod a dirywiad. Ym Medi 2014 roedd 2 adeilad ‘mewn perygl’ a 2 adeilad ‘bregus’.

- Monitro cyflwr yr holl adeiladau hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth, adrodd ar unrhyw ganfyddiadau a chynghori pa gamau y dylid eu cymryd, yn ôl yr angen. Os yw cyflwr adeilad yn achosi pryder, caiff camau priodol eu cymryd i sichrau dyfodol yr adeilad, gan gynnwys y defnydd o bwerau statudol.

***Rheoli datblygu newydd***

7.1.8 Cynnig:

- Caiff cynigion ar gyfer datblygu eu hasesu yn ôl eu heffaith ar gymeriad a golwg yr ardal fel y nodir yng Ngwerthusiad Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun, ynghyd â pholisïau perthnasol o’r Cynllun Datblygu ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

- Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cydymffurfio â’r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Sir Benfro (mabwysiadwyd yn 2013) ac unrhyw gynlluniau datblygu diweddarach.

***Tir y cyhoedd***

7.1.9 Cynnig:

- Gweithio gydag adrannau cynnal a chadw, priffyrdd a datblygwyr preifat i sicrhau gwaith dylunio, adeiladu a chynnal tir y cyhoedd o ansawdd uchel, gan ddefnyddio deunyddiau priodol sy’n cydweddu â chymeriad a chyd-destun hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.

- Gweithio gyda’r adran briffyrdd i fynd i’r afael â’r mater o barcio ceir ar y stryd ac effaith hynny ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth.

- Bydd y Cyngor yn ystyried cynnal archwiliad o’r holl arwyddion ffordd a chelfi stryd yn yr Ardal Gadwraeth gyda’r bwriad o sicrhau dull mwy syml a chydlynus, yn unol â’r egwyddorion a nodwyd yn ‘Streets for All’, gan gynnwys dileu eitemau nad oes eu hangen, a dodrefn stryd o ansawdd da, heb lawer o waith cynnal a chadw ac mewn safle da.Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi canllawiau ar gyfer tir y cyhoedd.

***Mannau agored, tirlunio a rheoli coed***

7.1.10 Cynnig:

- Sicrhau bod tirlunio priodol yn ffurfio rhan annatod o ddyluniad unrhyw ddatblygiad newydd gan gynnwys gwaith ar dir y cyhoedd o fewn yr Ardal Gadwraeth. Ni ddylid rhoi caniatâd i gynigion datblygu oni bai bod eu dyluniad yn gwella tirluniad a bioamrywiaeth y safle.

- Bydd y Cyngor yn ystyried paratoi canllawiau ar gynnal a gofalu am goed yn yr Ardal Gadwraeth.

# 8. Monitro

8.1.1 Bydd yn ofynnol monitro ac adolygu’r Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli yn rheolaidd er mwyn cwmpasu newidiadau datblygu ac unrhyw flaenoriaethau a chynigion newydd. Gallai arolwg ffotograffig newydd o’r Ardal Gadwraeth, wedi’i ddyddio, fod yn offeryn allweddol i fonitro newidiadau – gwnaed cofnod ffotograffig ar 26 Mawrth 2015.

8.1.2 Gall diweddariadau rheolaidd wedi’i seilio ar wybodaeth am Gynllunio / Adeiladau Rhestredig / GCC nodi’r rhan fwyaf o newidiadau datblygu, a gall ymchwil hanesyddol pellach i’r Ardal Gadwraeth fod yn fuddiol. Gallai mapiau hanesyddol, lluniadau, paentiadau neu engrafiadau a’r nifer drawiadol o hen ffotograffau sydd ar gael, fod yn wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer adferiad cywir eiddo a threfluniau treftadaeth pwysig yr ardal.

**Arolwg Ffurfiol**

8.1.3 Dylai'r ddogfen hon gael ei hadolygu bob pum mlynedd o ddyddiad ei mabwysiadu'n ffurfiol. Bydd angen iddi gael ei hasesu yn erbyn deddfwriaeth, a pholisi cenedlaethol a lleol sydd ar waith adeg yr adolygiad. Dylai'r adolygiad gwmpasu'r canlynol:

- Arolwg o'r Ardal Gadwraeth gan gynnwys arolwg ffotograffig llawn i gynorthwyo camau gorfodi posibl;
- Asesiad o'r graddau y mae argymhellion wedi cael eu gweithredu, a pha mor llwyddiannus mae hyn wedi bod;
- Nodi unrhyw faterion newydd sydd angen mynd i'r afael â nhw, neu sydd angen gweithredu neu welliannau pellach;

- Cynhyrchu adroddiad byr yn manylu ar ganfyddiadau'r arolwg ac unrhyw gamau angenrheidiol;
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu.

# Rhan 2: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun

## 1. Crynodeb o ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth

1.1.1 Pentref pysgota oedd Cwm Abergwaun yn wreiddiol, a dyfodd o ganlyniad i'r gweithgarwch masnachol hwn yn ogystal â'r hen felin, tanerdy a datblygiad Plas Glyn-y-Mel. Mae'r adeiladau yn deillio'n bennaf o'r 18fed a'r 19eg ganrif ac mae llawer o'r eiddo wedi cadw'u cymeriad gwreiddiol cyffredinol ac yn enghreifftiau nodweddiadol o adeiladau o'r oes honno. Mae 35 o adeiladau rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth.

1.1.2 Mae'r Ardal Gadwraeth yn wledig ei natur ac yn cynnwys craidd hanesyddol y cei, harbwr a'r strydoedd bychain o'u cwmpas. Mae'r thopograffeg lleol wedi dylanwadu ar batrwm y strydoedd ac yn parhau i wneud hynny i gryn raddau ar lawr cul y dyffryn, gyda datblygiad mwy modern yn gymysg â'r adeiladau o'r 18fed ganrif a'r 19eg ar hyd Glyn-y-Mel Road sy'n arwain i Blas Glyn-y-Mel. Mae ochrau serth a choediog y dyffryn yn lleoliad trawiadol ac yn gefnlen i olygfeydd panoramig ar draws y dyffryn ac ardal yr harbwr.

1.1.3 Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys un o nifer o nodweddion allweddol sy'n sail i ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth.

## Adnabod Materion Cadwraeth

### 1.1 Amodau cyffredinol (Dadansoddiad SWOT)

1.1.4 Er bod mwyafrif yr adeiladau hanesyddol a threfluniau pwysig yn dal i fod, mae yna nifer o faterion i'r dyfodol y dylid rhoi sylw iddynt. Mae'n rhaid i'r Cynllun Rheoli hwn adeiladu ar gryfderau lleol a rhinweddau cynhenid penodol yr Ardal Gadwraeth, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer y dyfodol yn cael sylw. Mae'r pryderon a'r problemau cyfredol wedi'u nodi mewn dadansoddiad 'SWOT' (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) gyda manylion pellach isod.

1.1.5 Dyma grynodeb o'r materion allweddol sy'n effeithio ar reolaeth yr Ardal

Gadwraeth:

**Cryfderau:**

- Tref bysgota hanesyddol gyda chysylltiad cryf â datblygiad y cei, pier a waliau'r harbwr;
- Nodweddion naturiol y tirwedd a'r tirffurfiau sylfaenol sydd wedi dylanwadu ar ffurf a chynllun y pentref;
- Ei lleoliad ar lan yr afon Gwaun a ger arfordir Sir Benfro;
- Adeiladau hanesyddol sydd, i gryn raddau wedi cadw'u cymeriad traddodiadol a chreu ffryntiad stryd cryf o derasau gan fwyaf;
- Adeiladau arwyddocaol yn rhoi pwyntiau ffocws clir o fewn yr Ardal Gadwraeth
- Cywirdeb a chyflawnrwydd patrwm hanesyddol strydoedd yr ardal yn cael ei hatgyfnerthu gan gysondeb y llinell adeiladu a thebygrwydd maint a graddfa'r adeiladau;
- Nifer fawr o adeiladau rhestredig;
- Buddsoddiad parhaus mewn eiddo sydd angen eu hatgyweirio

**Gwendidau:**

- Effaith gronnus ansawdd gwael addasiadau, estyniadau, deunyddiau newydd a manylion i lawer o adeiladau hanesyddol  wedi arwain at golli cryn nifer o nodweddion pensaernïol a deunyddiau gwreiddiol, gan niweidio cymeriad arbennig a golwg yr ardal;
- Diffyg cynnal a chadw a gofal priodol am fanylion treftadaeth;
- Nifer o'r adeiladau rhestredig a rhai heb eu rhestru mewn cyflwr gwael;
- Datblygiad anghydnaws;
- Maes parcio anffurfiol yn yr Ardal Gadwraeth yn cael ei gynnal yn wael a heb unrhyw gysylltiad â chymeriad yr ardal;
- Tir y cyhoedd wedi'i gynllunio a'i adeiladu'n wael, gan ddefnyddio deunyddiau amhriodol;
- Goruchafiaeth y brif ffordd drwy'r strydoedd cul;
- Diffyg llwybr troed i gerddwyr dros yr afon ac i'r llwybr hamdden ar lan yr afon

**Cyfleoedd:**

- Gwella'r gwaith o gynnal a chadw a rheoli adeiladau treftadaeth;
- Rhagor o adfywio safleoedd allweddol yn sensitif;
- Parhau i uwchraddio tir y cyhoedd gan ddefnyddio agwedd sensitif tuag at gydlyniad a dyluniad y tir hwnnw'n gyffredinol, er mwyn atgyfnerthu a gwella cymeriad hanesyddol y pentref;

- Adeiladu ar dwristiaeth a chyfleoedd sensitif ar gyfer hamdden, gan gynnwys y Llwybr Cenedlaethol, ymweliadau â'r cei hanesyddol, gweithgareddau dŵr a mentrau cymunedol lleol;
- Gwell cyfleusterau i gefnogi gwasanaethau hamdden i dwristiaid, sydd ar raddfa, mewn lleoliad ac o ddyluniad addas
- Paratoi briffiau datblygu ar gyfer cyfleoedd ailddatblygu priodol o fewn y dref
- Parhau i ehangu defnydd y gymuned o adeilad cymunedol Skirmisher

**Bygythiadau:**

- Gwrthwynebiad i reolaethau priodol ar gynnal a chadw ac addasu adeiladau hanesyddol;
- Dyluniad amhriodol adeiladau llenwi, estyniadau ac addasiadau newydd;
- Rheolaeth wael dros welliannau penodol yn achosi dirywiad yn yr adeiladau a thir y cyhoedd neu'n effeithio'n negyddol ar hynodrwydd lleol;
- Cynnydd yn y traffig ac effaith parcio;
- Clirio a diraddio llethrau coediog fewn a thu allan i'r Ardal Gadwraeth;
- Newid yn yr hinsawdd yn arwain at lifogydd amlach a mwy eang o'r môr neu'r afon;
- Ymestyn yr amgylchedd adeiledig i mewn i'r mannau agored anffurfiol;
- Cau'r clybiau hwylio fel cyfleusterau hamdden a chymunedol

## 1.2 Materion cadarnhaol ac asedau

1.2.1 Mae'r canlynol ymhlith y materion treftadaeth cadarnhaol ac asedau sydd angen eu diogelu:

- Cymeriad cyffredinol yr Ardal Gadwraeth sef cyfuniad o'i thirlun adeiledig a naturiol, sy'n cyfleu ac yn cynrychioli hanfod cymeriad yr ardal, gan gynnwys y cei, Quay Street, yr A478 Heol Trefdraeth ac adeiladau hanesyddol Glyn-y-Mel.

- Adeiladau unigol a grwpiau o adeiladau gan gynnwys adeiladau allweddol, y strydlun, waliau'r harbwr a'r cei, a'r bont gerrig

- Adeiladau unigol o arwyddocâd hanesyddol sydd â'r potensial i fywiogi'r strydlun, megis adeilad trawiadol Skirmisher, waliau'r pier a'r cei, y bont un bwa, garreg, Tafarn y Ship, Plas Glyn-y-Mel.

- Grwpiau arwyddocaol o adeiladau sy'n ffurfio strydluniau integredig yn rhoi ymdeimlad o reolaeth a diffiniad i'r mannau adeiledig nodedig a'r gofodau, megis A478 Heol Trefdraeth, Quay Street, a thua 35 o adeiladau rhestredig.

**1.3 Materion negyddol a phroblemau**

1.3.1 Mae'r canlynol ymhlith y materion negyddol a'r problemau o fewn yr Ardal Gadwraeth:

• Adeiladau diffaith, nad ydynt yn cael eu defnyddio sy'n tynnu oddi ar rinweddau gweledol yr amgylchedd treftadaeth; nid ydynt ychwaith yn annog buddsoddiad newydd mewn adeiladau cyfagos a'r ardal yn gyffredinol. Mae diffyg cynnal a chadw yn golygu bod ffabrig yr adeiladau hyn yn dirywio'n gyflymach, a hynny wedyn yn llesteirio unrhyw raglenni adfywio, fel yn Heol Trefdraeth a Quay Street.

• Gall y diffyg budd economaidd a ddaw yn sgîl hynny arwain at gynnal a chadw gwael ac atgyweirio amhriodol ac mae hyn yn effeithio ar amgylchedd weledol a ffisegol y dref.

• Mae addasu ac atgyweirio gwael yn golygu bod llawer o'r rhinweddau treftadaeth traddodiadol wedi'u colli a hynny'n amharu ar gymeriad yr adeiladau ac ar drefluniau hanesyddol. Mae effaith cronnus cymaint o newidiadau bach yn cael effaith arwyddocaol ar adeiladau unigol ac ar strydluniau ehangach.

1.3.2 Mae angen rheoliadau statudol, yn enwedig wrth ystyried y canlynol:

- newid ffenestri codi pren a rhoi ffenestri fframiau Upvc ac o ddyluniad gwahanol yn eu lle;
- colli manylion a deunyddiau treftadaeth gan gynnwys gwaith atgyweirio o ansawdd isel;
- y defnydd o rendr a gorffeniadau wal eraill anaddas ar gyfer adeiladau treftadaeth;
- gosod drysau ffrynt newydd gyda dyluniadau a gorffeniadau anaddas;
- tynnu mowldinau treftadaeth a manylion eraill;
- tynnu simneau a photiau;
- ffenestri anaddas a gwael o ran maint, a ffenestri dormer;
- gosod erialau a dysglau lloeren;
- lleoliad a maint anaddas offer ynni adnewyddadwy.

# 2. Canllawiau Polisi ac Egwyddorion Dylunio

## 2.1 Egwyddorion Dylunio

2.1.1 Mae 'Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy' CADW Mawrth 2011, yn nodi chwe egwyddor allweddol. Yr egwyddorion hyn yw sail yr argymhellion polisi a rheoli sy'n cael eu nodi yn y ddogfen hon.

**Egwyddor 1 Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerth**
Gwaith y ddogfen hon yw adnabod y materion allweddol a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli'r ardal;

**Egwyddor 2 Mae deall arwyddocâd asedau hanesyddol yn hollbwysig**
Mae Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun yn adnabod, disgrifio ac yn lleoli cymeriad a gwedd gwahanol rannau o'r ardal;

**Egwyddor 3 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir**
Mae Rhan 2 (Adran 2) y ddogfen hon yn adnabod polisïau a chanllawiau dylunio ar gyfer dyfodol holl adeiladau a mannau o fewn yr Ardal Gadwraeth;

**Egwyddor 4 Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol**
Yn ogystal â'r canllawiau yn adran 2, gweler adran 5. Rhaglen weithredu a chanllawiau ynghylch Cyfranogiad Cymunedol;

**Egwyddor 5 Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson**
Adran 4 – Mae'r Argymhellion Rheoli yn nodi'r gweithredoedd allweddol sydd eu hangen i gefnogi gweithdrefnau cynllunio cyfredol yr Ardal Gadwraeth;

**Egwyddor 6 Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt**
Adran 4.5 – Monitro Newid yn rhestru dulliau o hysbysu'r gymuned a'r awdurdodau.

## 2.2 Cyd-destun Datblygiad yr Ardal Gadwraeth

Mae'r ddogfen **Gweledigaeth i Sir Benfro hyd 2020** yn anelu at greu:

*"..lle diogel a deniadol i fyw a gweithio ynddo, ac i ymweld ag ef gydag amgylchedd morol a daearol o ansawdd uchel. Caiff ei seilio ar rwydwaith integredig o gymunedau cynaliadwy gyda dyfodol hir dymor sy'n cynnal diwylliant, iaith, treftadaeth a thraddodiadau amrywiol Sir Benfro."*

2.2.1 Mae gan Gwm Abergwaun y potensial i chwarae rôl allweddol yn y broses o wireddu'r weledigaeth

**2.3 Polisi datblygu ac egwyddorion dylunio Ardal Gadwraeth**

2.3.1 Mae dynodiad Ardal Gadwraeth yn cyflwyno rheolaeth dros ddymchwel ac yn rhoi rheolaeth gryfach dros ddatblygiad gyda'r nod o gynnal, cadw a gwella diddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth. Bydd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu o fewn Ardal Gadwraeth angen Caniatâd Ardal Gadwraeth. Dylid sicrhau bod darluniadau manwl ar gael i gefnogi'r holl geisiadau ynghyd â manylion tirlunio arfaethedig, lle bo hynny'n angenrheidiol. Bydd hynny'n galluogi'r awdurdodau i asesu'r cynnig yn llawn ac i ystyried ei effaith ar yr Ardal Gadwraeth. Dylid darllen y rhain ynghyd â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fabwysiadwyd.

2.3.2 Mae polisïau yn ymwneud â chynnal yr amgylchedd hanesyddol o fewn Cyngor Sir Penfro ar gael yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fabwysiadwyd ar 28 Chwefror 2013. Mae'r CDLl yn parhau i bwysleisio ac atgyfnerthu pwysigrwydd Polisïau Cadwraeth y sir, ac yn cyflwyno canllawiau eglur a blaenoriaethau.

2.3.3 Bydd angen cysylltu gweithrediad polisi a chanllawiau dylunio, generig a lleol, ynghyd â chyngor dylunio i'r Ardal Gadwraeth gyfan ac argymhellion arbennig, gyda'r Cynllun Datblygu fel canllawiau cynllunio atodol. Bydd angen diogelu'r asedau cadarnhaol a ddisgrifiwyd yn adran un, tra bydd angen datrys neu gyfyngu ar y problemau negyddol.

**2.4 Canllawiau dylunio er mwyn gwella adeiladau presennol**

2.4.1 Mae newidiadau modern amhriodol yn gallu effeithio'n niweidiol ar gynildeb, cydbwysedd a maint drychiad adeiladau a hefyd yn gallu bod yn niweidiol i ffabrig adeiladau hanesyddol. Mae'r canlynol ymhlith y nodweddion gwreiddiol sydd dan fygythiad o newidiadau o'r fath: wynebau siopau, ffenestri codi pren, drysau a fframiau drysau, canllawiau haearn bwrw, rheiliau, offer dal dŵr glaw, a simneiau a

photiau simnai. Felly, mae'n bwysig bod perchenogion eiddo a phreswylwyr yn magu agwedd gadarnhaol tuag at atgyweirio ac ailosod y nodweddion hyn.

2.4.2 Mae'r nodiadau canlynol yn amlygu'r prif ystyriaethau mewn perthynas â rheoli datblygiadau a chynnal neu ailosod cydrannau treftadaeth o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'r gwefannau canlynol, gan Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol, Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol, Historic England a Cadw[18], yn cynnwys cyngor pellach ynglŷn â sut y dylid cynnal gwaith atgyweirio ac ailosod:

- www.ihbc.org.uk/page55/ihbc_publications/index.html
- http://www.maintainyourbuilding.org.uk/main/
- https://historicengland.org.uk/advice/technical-advice/buildings/maintenance-and-repair-of-older-buildings/
- http://www.maintenancematterswales.org/

2.4.3 Deall effaith unrhyw newidiadau yw'r allwedd i sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol. Ni ddylid ymgymryd ag unrhyw waith heb sefydlu:

- Pam ei fod yn angenrheidiol;
- Beth mae'n ceisio ei gyflawni; ac
- A oes posibilrwydd o unrhyw ganlyniadau niweidiol.

2.4.4 Mae hyn yn golygu bod yn rhaid asesu pob safle yn nhermau ei gyfraniad i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, ei werth hanesyddol, y math o adeiladu a pherfformiad technegol, gan gynnwys presenoldeb diffygion neu unrhyw fygythiadau eraill i'w ffabrig. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar bob prosiect mawr, gan bensaer, syrfëwr adeiladau neu gynlluniwr sy'n brofiadol o ran gweithio ag amgylcheddau hanesyddol. Hyd yn oed yn achos y prosiectau symlaf, mae'n hanfodol deall sut mae adeilad penodol yn 'gweithio' o ran ei hunan ac mewn perthynas â'i leoliad. Dylid sicrhau bod cynllun cadwraeth cynhwysfawr a manwl yn ei le cyn dechrau ar unrhyw waith ar adeiladau mwy o faint ac adeiladau o werth hanesyddol eithriadol. Nid yw dynodiad ardal gadwraeth yn rhwystro newid ond yn hytrach yn ffurfio fframwaith y gall y dref ddatblygu o'i fewn heb golli unrhyw nodweddion sy'n ei gwneud yn arbennig.

[18] Dolennau i'r gwefannau'n gywir Hydref 2015

**Cynnal a chadw**

2.4.5 Cynnal a chadw cyson yw'r ffordd orau a mwyaf economaidd o ofalu am ffabrig adeilad. Cyfrifoldeb y perchenogion a'r preswylwyr yw gofalu am adeilad. Bydd adeilad s'n cael gofal yn cadw ei werth ac ni fydd angen atgyweiriadau drud. Diogelu'r adeilad rhag effeithiau dŵr a lleithder yw'r mater pwysicaf. Toeon, cwteri a phibau dŵr ddylid eu hatgyweirio'n gyntaf. Dylai perchenogion adeiladau mawr ystyried creu cynllun cynnal a chadw yn seiliedig ar archwiliadau gweledol blynyddol ac arolwg manwl bob pum mlynedd.

***Atgyweirio a cynnal a chadw***

2.4.6 Dylai cynnal a chadw rheolaidd leihau'r angen am waith atgyweirio sylweddol i bob adeilad. Dylid bob amser asesu'n gyntaf os oes modd atgyweirio nodweddion gwreiddiol. Fodd bynnag, bydd rhai elfennau wrth reswm yn dod i ddiwedd eu hoes, a bydd yn rhaid ystyried pa ddeunyddiau traddodiadol a thechnegau atgyweirio dibynadwy y dylid eu defnyddio. Os na wneir hyn, bydd gwerth hanesyddol adeiladau unigol yn diflannu a gyda hynny, diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Pwrpas atgyweirio unrhyw adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth yw rhwystro, neu o leiaf arafu, y broses ddirywio heb niweidio neu addasu nodweddion sy'n cyfrannu i'w pwysigrwydd hanesyddol / pensaernïol.

2.4.7 Mae'r egwyddorion atgyweirio canlynol yn fan cychwyn da ar gyfer deall egwyddorion ac athroniaeth atgyweirio adeilad hanesyddol:

- *Lleihau Ymyriad*: Mae'n rhaid sicrhau nad oes mwy o ymyriadau na'r hyn sy'n hollol angenrheidiol i sicrhau goroesiad tymor hir yr adeilad. *Dylid osgoi niwed diangen*: Mae dilysrwydd adeilad hanesyddol yn dibynnu ar gyfanrwydd ei ffabrig. Bydd cael gwared â ffabrig hanesyddol a rhoi ffabrig newydd yn ei le, waeth pa mor ofalus y gwneir hyn, yn effeithio'n niweidiol ar olwg adeilad, yn lleihau ei werth fel ffynhonnell o wybodaeth hanesyddol ac yn erydu arbenigrwydd lleol.
- *Dadansoddi achos y diffygion*: Mae atgyweirio neu ailosod deunydd pydredig heb ddeall pam mae angen ei ailosod yn gallu arwain at broblemau pellach.
- *Gadael i'r adeilad 'anadlu'*: Mae'r rhan fwyaf o adeiladau modern wedi'u

gwneud o ddeunyddiau caled, cryf ac anhydraidd. Maent yn dibynnu ar rwystrau ffisegol fel cyrsiau gwrth leithder a philenni, waliau ceudod a chladin i gadw lleithder allan. Mae adeiladau hanesyddol a thraddodiadol yn wahanol iawn. Mae gan lawer ohonynt waliau solet ac mae'r rhan fwyaf ohonynt o ddeunyddiau mandyllog sy'n amsugno lleithder ac sydd wedyn angen i'r lleithder hwnnw anweddu, hy, 'anadlu'. Bydd atgyweirio adeiladau o'r fath gyda deunyddiau caled, anhydraidd yn achosi niwed i ffabrig sydd o bosibl wedi goroesi am gannoedd o flynyddoedd. Mae'n bwysig iawn defnyddio deunyddiau o ansawdd uchel yn unig, gyda thechnegau dibynadwy. Mae'n bosibl meddwl yn y tymor byr bod deunyddiau rhad, modern fel plastig yn cynnig manteision, ond bydd dyfodol hir dymor cymeriad a golwg yr ardal yn dioddef. Mae angen defnyddio deunyddiau traddodiadol a fydd yn diflannu i'r cefndir gydag amser a thywydd. Dylid bob amser asesu pa waith atgyweirio, adfer a gwella sy'n angenrheidiol o fewn cyd- destun yr adeilad cyfan; nid yw'n ddigonol ystyried blaen yr adeilad neu wyneb siop yn unig.

**Toeon**

2.4.8 Mae toeon ardal drefol yn ffurfio nenlinell a phroffil gweledol strydlun ac yn rhan bwysig o'i hunaniaeth. Mae'r cyfuniad o ddeunyddiau, manylion, ffurf a maint yn creu'r 'het' sy'n eistedd uwchben yr adeilad ac sy'n bwysig i'w gymeriad. Er nad yw llawer o'r manylion bob amser i'w gweld o lefel y stryd, mae topograffi Cwm Abergwaun yn golygu bod modd edrych dros y toeon o wahanol rannau o'r ardal ac o dref Abergwaun. Mae cysondeb, unffurfiaeth a chyfanrwydd toeon gwreiddiol y pentref wedi'i golli wrth i bobl ddefnyddio deunyddiau gwahanol a dymchwel simneau a photiau simnai. Mae'r golled i'w gweld yn glir pan fydd enghreifftiau gwreiddiol yn dal i'w gweld ochr yn ochr â'r adeiladau sydd hebddynt. Wrth reswm, mae'r to yn rhan hanfodol o adeilad, gan amddiffyn yr adeilad rhag y tywydd, ac o'r herwydd, dyma un o'r rhannau mwyaf allweddol sydd angen cynnal a chadw rheolaidd ac atgyweirio. Felly, mae angen manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i adfer a gwella'r to, fel rhan o'r gwaith arferol o ofalu am yr adeilad.

**Defnyddiau Toeon**

2.4.9 Llechi naturiol o Gymru yw'r prif ddefnydd ar doeon adeiladau traddodiadol yng Nghwm Abergwaun, a dylid defnyddio llechi o'r un math wrth atgyweirio neu adfer unrhyw doeon. Dylid defnyddio morter calch naturiol wrth osod unrhyw gribau, ymylon a manylion eraill. Ni ddylid defnyddio clipiau plastig neu debyg. Nid yw teils

concrit a chlai yn briodol ar adeiladau treftadaeth. Heblaw am edrych yn fwy garw, maent yn pwyso cryn dipyn yn fwy na'r defnyddiau llechi gwreiddiol a hynny yn ei dro yn achosi problemau i'r strwythur pren sy'n cynnal y to. Mae mewnforio llechi naturiol sy'n cyd-fynd â lliw llwyd neu las arbennig y llechi Cymreig gwreiddiol yn ateb mwy cost-effeithiol ond mae'n bwysig chwilio am lechi sy'n dod o chwarel safonol er mwyn osgoi problemau hir dymor wrth i'r llechi hindreulio. Er ei bod yn anodd weithiau gwahaniaethu rhwng llechi artiffisial newydd a rhai naturiol, mae llechi artiffisial yn hindreulio mewn ffordd wahanol a thros amser, fe ddaw'n amlwg eu bod yn wahanol i'r llechi gwreiddiol. Os rhoddir deunydd inswleiddio yn y to, dylai fod ar lefel y nenfwd neu rhwng y trawstiau, cyn belled â bod awyriad digonol (trwy dyllau dan y bondo, ac nid awyrellau penodol wedi'u gosod yng ngoledd y to).

2.4.10 Bydd deunydd inswleiddio ar ben y trawstiau yn codi proffil y to ac yn achosi problemau posibl ger y bondoeau a hefyd lle mae'n ffinio ag adeiladau cyfagos. Fodd bynnag, mae cyflwyno llawer o ddeunydd inswleiddio mewn adeiladau hŷn yn gallu achosi cyddwysiad a hynny wedyn yn arwain at bydredd.

***Ffenestri to***

2.4.11 Os oes rhaid wrth ffenestri to neu ddormer mewn llofftydd sydd wedi'u troi'n ystafelloedd, dylid eu gosod ar gefn yr adeilad gan eu bod yn amharu ar nenlinell di-dor y toeon ar yr ochr sy'n wynebu'r stryd. Dylid osgoi ffenestri dormer newydd lle bynnag bo hynny'n bosibl, gan eu bod yn effeithio'n andwyol ar broffil y to, a graddfa a chydbwysedd ffurf a maint yr adeilad. Lle bo ffenestri to gwreiddiol yn bodoli, dylid osgoi unrhyw newidiadau i'w cyfraneddau a'u maint cyffredinol. Dylid ystyried defnyddio fersiynau modern, gwydr dwbl o ffenestri to haearn bwrw gwreiddiol cynnar (gan sicrhau bod y cyfrannedd a'r maint yn gywir, ynghyd â bar fertigol) er mwyn cadw cymaint ag sy'n bosibl o gymeriad y to.

***Simneiau a photiau simnai***

2.4.12 Mae cyrn simneiau a photiau simnai yn ychwanegu at ddiddordeb y nenlinell a'r strydlun. Dylid cadw simneiau a'u hatgyweirio gyda photiau clai newydd yn ôl yr angen. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i syrfëwr strwythurol archwilio sadrwydd rhai simneau uchel. Os yw'r corn simnai gwreiddiol wedi cael ei leihau o ran maint (gyda slabiau concrit yn aml ar ei ben), yna dylid ei ailadeiladu i'w uchder gwreiddiol. Os nad oes tystiolaeth o batrwm y corn gwreiddiol yn bodoli, dylid cadw'r steil mor syml ag sy'n bosibl, gan roi cyrsiau corbelaidd bargodol ar ei ben. Os yn bosibl, dylid

osgoi defnyddio brics concrit ac ni ddylid rendro cyrn simnai. Dylid gosod sêl blwm (yn yr uniad rhwng yr arwyneb fertigol a defnydd y to) rhwng y simnai a'r to yn y dull traddodiadol ac yn unol â chanllawiau'r Lead Sheet Association.

### *Cwteri a phibellau dŵr*

2.4.13 Dylid ystyried defnyddio cwteri haearn bwrw (neu alwminiwm bwrw) traddodiadol wrth atgyweirio adeiladau treftadaeth. Dylid bob amser ddefnyddio cwteri hanner cylch syml ar adeiladau cynnar. Mae cwteri hanner cylch a chwteri patrwm ogee yn addas i adeiladau diweddarach. Ychydig iawn o gwteri a phibellau dŵr gwreiddiol sydd ar ôl, gyda'r mwyafrif helaeth wedi'u disodli gan Upvc neu mewn ychydig o achosion gan alwminiwm allwthiol. Fodd bynnag, nid yw'r deunyddiau hyn mor gadarn â haearn bwrw neu alwminiwm bwrw ac nid ydynt cystal am wrthsefyll effeithiau tywydd garw. Dylid atgyweirio cwteri sydd wedi'u difrodi neu sydd ar goll, i rwystro dŵr rhag treiddio i mewn i adeiladau ac achosi niwed. Mae dyluniad blêr nwyddau dŵr glaw a deunyddiau o ansawdd gwael yn cael effaith negyddol ar olwg yr adeilad, fel y mae gosod paneli o ddeunyddiau modern ger y bondo ar dalcen adeilad .

### Ffenestri a gwydriad

2.4.14 Ffenestri yw 'llygaid' adeilad ac o'r herwydd maent yn rhan ganolog o gymeriad tŷ. Mae'r ffenestr godi ddwbl yn nodweddiadol o fwyafrif yr adeiladau a adeiladwyd cyn dechrau'r ugeinfed ganrif. Yn yr ardal hon, mae ffenestri gasment ochr neu grog yn nodweddiadol o adeiladau mwy diweddar yn unig. Yn ddieithriad mae newidiadau i faint agoriad y ffenestri neu'r ffenestri eu hunain yn effeithio'n niweidiol ar wyneb yr adeilad. Dylid osgoi defnyddio awyrellau diferu, gan eu bod yn effeithio'n niweidiol ar gymeriad adeiladau.

2.4.15 Dylid ceisio, bob amser, cadw a thrwsio ffenestri codi gwreiddiol, oni bai bod hynny'n hollol anymarferol. Anaml iawn y bydd yn rhaid gosod ffenestri newydd. Mae dirywiad fel rheol yn digwydd ar rannau gwaelod ffenestri, a gellir asio darnau newydd o goed at yr hen goed. Mae'r gwydr coron neu silindr gwreiddiol yn deneuach ac yn fwy anwastad ei arwynebedd na gwydr modern. Mae'n rhoi adlewyrchiadau mwy cynnil a lle mae'r gwydr gwreiddiol yn dal i fodoli, dylid ei gadw. Mae gwydr modern yn drymach, ac mae'n debygol y bydd angen pwysau sash trymach i wrthbwyso'r ffenestr. Os oes rhaid gosod ffenestr newydd yn hytrach na

thrwsio'r un wreiddiol, dylai'r ffenestr newydd fod yn un bren a'r dyluniad yr un fath â'r gwreiddiol. Dylid hefyd cadw siliau cerrig gwreiddiol lle bo hynny'n bosibl. Os na ellir trwsio'r sil garreg, y dewis gorau yw hen sil garreg wedi'i hadfer, sy'n cyd-fynd, neu sil concrit o'r un maint.

**Pyrth a drysau**

2.4.16 Mae llawer o'r materion sy'n berthnasol i ffenestri a'r gwydriad hefyd yn berthnasol i byrth a drysau. Lle bo hynny'n bosibl, dylid cadw a thrwsio drysau pren traddodiadol. Os oes rhaid defnyddio drysau newydd, dylid sicrhau eu bod yn debyg i ddyluniad y drysau gwreiddiol, neu'n sicr eu bod yn gweddu'r cyfnod adeiladu gwreiddiol. Tra bod patrymau drysau traddodiadol yn fwy amrywiol na phatrymau ffenestri, mae yna rai egwyddorion cyffredinol o bwys. Ar y cyfan, nid oedd gwydr yn cael ei osod yn y prif ddrws blaen os oedd ffenestr linter uwch ei ben, er i rai perchenogion yn niwedd oes Fictoria a'r cyfnod Edwardaidd roi gwydr addurnedig neu farugog yn lle rhai o'r paneli pren uchaf. Mae'n rhaid cadw, trwsio a chynnal ffenestri linter ac unrhyw nodweddion ategol eraill bob amser. Mae dyluniad ac arddull y gwaith haearn hefyd yn bwysig, a dylai gyd-fynd â dyluniad ac arddull y drws gwreiddiol. Dylid osgoi dolennau lifer allanol.

**Mynediad i'r anabl**

2.4.17 Mae'n angenrheidiol darparu mynediad i'r anabl, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth hygyrchedd. Dylid bob amser sicrhau bod y rheoliadau a'r canllawiau a geir yn y Ddeddf Gydraddoldeb a Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu yn cael eu dehongli'n gywir yn achos Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Lle bo gwaith o'r fath yn digwydd, dylid gwneud hynny'n sensitif gan roi'r un sylw i brif egwyddorion maint, dyluniad, deunyddiau a saernïaeth ag a wneir i'r adeilad cyfan. Argymhellir y dylid ymgynghori gydag adran rheoli adeiladu Cyngor Sir Benfro.

**Peintwaith**

2.4.18 Tra bod stucco a rendr bob amser wedi'u peintio neu liwio, anaml iawn y byddai hynny'n digwydd i frics, cerrig a theils. Dylid peintio gwaith pren mewn lliwiau cryf, tywyll, gan osgoi lliwiau llachar a / neu gyferbyniadau cryf. Dylid peintio gwaith haearn yn ddu, gwyrdd tywyll neu efydd-biws dwfn. Yn gyffredinol, fe fydd defnyddio ychydig o liwiau yn fwy llwyddiannus ac yn creu edrychiad mwy cydlynol a chynnil.

Mae gan rai o’r gwneuthurwyr paent mawr liwiau treftadaeth arbennig gan gynnwys Dulux, Farrow a Ball a Crown, sy’n fan cychwyn da i’r gwaith o ddewis lliwiau. Cynghorir perchenogion i ymgynghori gyda swyddogion yr ACLl i sicrhau bod lliwiau addas yn cael eu dewis i adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth.

**Waliau terfyn a rheiliau**

2.4.19 Er bod yr adeiladau’n gyffredinol wedi’u hadeiladu’n dynn i flaen y palmant yng Nghwm Abergwaun, ac felly nad oes angen unrhyw derfyn, mewn llawer o’r ardaloedd oedd, neu sy’n cael eu defnyddio at ddibenion preswyl neu arall mae waliau terfyn a rheiliau’n hynod o bwysig gan eu bod yn cyfrannu at gymeriad ac ansawdd cyffredinol y strydlun. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau nad yw waliau terfyn a rheiliau’n cael eu tynnu a’u dymchwel er mwyn gwneud lle i barcio ceir ar dir yr adeilad.

**2.5 Polisïau ar gyfer datblygiad newydd o fewn ardaloedd treftadaeth**

2.5.1 Cymharol ychydig o ddatblygiadau newydd sydd wedi digwydd yn yr ardal gadwraeth dros y blynyddoedd diwethaf. Disgwylir, yn y dyfodol, y daw i law, raglenni adfywio sy’n annog ailddatblygu sensitif a phriodol o’r safleoedd hynny y gwelir eu bod yn niweidiol i gymeriad ac ansawdd yr ardal.

2.5.2 Yn gyffredinol, lle cynigir datblygiad newydd a / neu estyniadau, mae’n bwysig eu bod yn dilyn egwyddorion cadarn dylunio trefol, yn ogystal â defnyddio manylion priodol mewn perthynas â’r cyd-destun hanesyddol. Dylai holl ddatblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth fod yn:

- Cynnal ac atgyfnerthu patrwm arbennig datblygiad traddodiadol, gan gynnwys patrymau stryd, mannau agored a choed, terfynau plot a mathau o derfynau;
- Ystyried llinellau adeiladu presennol a chyfeiriadaeth datblygiad sydd yno eisoes;
- Ymateb i rythm a dyluniad israniad y strydlun ac adeiladau unigol yn nhermau bylchau ac agoriadau sy’n ymrannu’r ffasâd;
- Atgyfnerthu cymeriad a graen arbennig ardal nodwedd canol y dref, trwy ddeall y mathau ac arddulliau o adeiladau a geir yno, ynghyd â’u nodweddion a’u deunyddiau. Dylid osgoi datblygiadau pastiche sy’n ceisio efelychu’n arwynebol nodweddion hanesyddol mewn adeiladau newydd;

- Parchu maint a graddfa'r adeiladau cyfagos. Mae'n hanfodol sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn gwrthdaro gydag adeiladau sydd yno eisoes o ran uchder, lefelau'r lloriau, maint y ffenestri a drysau, maint cyffredinol a siâp y toeon;

- Cynnal a chadw golygfeydd allweddol o fewn yr Ardal Gadwraeth, i mewn i'r Ardal a hefyd allan o'r Ardal; a

- Lle bo hynny'n bosibl, cyfyngu effaith gweledol cerbydau wedi'u parcio a mannau parcio ceir ar y strydlun a thirwedd strydoedd ac adeiladau hanesyddol.

2.5.3 Lle y bwriedir greu datblygiad newydd mewn ardaloedd sydd gerllaw'r Ardal Gadwraeth, fe fydd yr un mor bwysig rhoi gofal ac ystyriaeth i effaith y dyluniad a'r manylion trefol. Lle bo hynny'n briodol, dylai pob datblygiad newydd barchu'r egwyddorion a restrir uchod, gan roi sylw arbennig i:

- Sicrhau bod y datblygiad newydd yn parhau gyda'r raddfa, ffurf a deunyddiau lleol er mwyn atgyfnerthu cymeriad pensaernïol arbennig y cyd-destun cyfagos;

- Ystyried effaith y datblygiad newydd ar olygfeydd allweddol; a

- Sicrhau bod cynlluniau ffyrdd a threfniadau parcio newydd yn effeithio cyn lleied â phosibl ar ansawdd strydluniau'r ardal. Mae angen cynlluniau, dyluniadau a thirlunio sensitif i gyfyngu ar y defnydd o darmac a rhesi o geir wedi'u parcio;

2.5.4 Mae'n bosibl y bydd dyluniadau cyfoes o ansawdd uchel yn briodol i'r Ardal Gadwraeth, ond rhaid gofalu nad oes unrhyw ddatblygiadau anghydnaws o ansawdd isel.

# 3. Canllawiau penodol ar gyfer adeiladau, safleoedd arwyddocaol a thir y cyhoedd

### 3.1 Dyluniad tir y cyhoedd

3.1.1 Mae nodweddion amrywiol Cwm Abergwaun yn adlewyrchu hanes a datblygiad arbennig gwahanol ardaloedd, a hefyd eu maint, lleoliad, cynllun a phatrymau defnydd, boed yn hanesyddol ac yn gyfoes. Mae trin yr ardaloedd rhwng yr

adeiladau yn hanfodol bwysig i ansawdd a chymeriad cyffredinol ardal, a dylid dilyn egwyddorion dylunio trefol cadarn. Dylid rhoi sylw i'r materion penodol canlynol:

- Cyd-destun – rhaid gwerthfawrogi lleoliad a hunaniaeth ardal, ynghyd â defnyddio deunyddiau a manylion priodol i ymateb i, ac i atgyfnerthu, cymeriad lleol y man dan sylw.
- Creu gofodau a mannau – mae natur agored neu gaeedig gofod, ynghyd â'i faint, ffurf a graddfa, yn helpu i roi cymeriad a hunaniaeth i'r man, ac yn atgyfnerthu materion fel diogelwch, sicrwydd, cysur, amrywiaeth a diddordeb.
- Annog gweithgaredd - mae wynebau blaen sionc yn helpu i ysgogi gweithgaredd a bywiogrwydd ar y strydoedd yn ogystal â sicrhau goruchwyliaeth naturiol o ofod neu stryd.
- Amrywiaeth a diddordeb – fel yr adeiladau mewn strydlun, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i diroedd y cyhoedd, o ran cysondeb ac amrywiaeth, er mwyn creu ystod o gyfleoedd a lleoliadau ar gyfer defnyddwyr a gwahanol grwpiau cymdeithasol.

3.1.2 Uno yn hytrach na chystadlu gyda'r amrywiaeth eang o ddeunyddiau a dyluniadau a ddefnyddir ar yr adeiladau ddylai fod y nod er mwyn llunio tiroedd cyhoeddus syml a threfnus. Wrth gwrs, mae sicrhau newidiadau mawr i'r dref yn afrealistig yn y tymor byr, ond dylid ffurfio strategaeth tymor byr, tymor canolig a thymor hir cyfannol ac integredig sy'n datgan y weledigaeth ar gyfer yr ardal. Fel rhan o'r agwedd hon, mae celf gyhoeddus yn darparu mecanwaith uniongyrchol i alluogi tiroedd y cyhoedd i ymateb i dreftadaeth a chymuned Cwm Abergwaun a Sir Benfro.

# 4. Argymhellion Rheoli

## Gwneud penderfyniadau gan gynnwys rhestriad lleol, newidiadau i ffiniau a Chyfarwyddiadau Erthygl 4

### 4.1 Rhestru lleol yn yr Ardal Gadwraeth

4.1.1 Pwrpas dynodi Ardal Gadwraeth yw darparu gwarchodaeth ychwanegol ar gyfer yr adeiladau niferus nad oes ganddynt nodweddion unigol sy’n addas ar gyfer Rhestriad Statudol llawn. Mae’r eiddo canlynol a’r grwpiau canlynol o adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth wedi’u nodi yng Ngwerthusiad yr Ardal Gadwraeth fel bod yn anrhestredig ond yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i’r ardal gadwraeth a gellid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys ar restr leol:

- 2 – 8 Quay Street
- 25 Hen Heol Trefdraeth
- Eiddo gyda ffenestri bae ar Heol Trefdraeth
- Eiddo’r hen Felin, Glyn-y-Mel
- 20, 25, 27 Glyn-y-Mel

### 4.2 Ailasesu ffiniau’r Ardal Gadwraeth

4.2.1 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun yn wreiddiol yn 1976 gyda diwygiadau yn 1992. Mae Gwerthusiad yr Ardal Gadwraeth yn nodi bod “*cyfiawnhad dros gadw ffiniau’r Ardal Gadwraeth fel ag y maent*.”

### 4.3 Cyfarwyddyd Erthygl 4 a Datblygiad a Ganiateir

4.3.1 Gall Cyfarwyddiadau Erthygl 4 gael eu gosod gan awdurdodau cynllunio lleol i reoli rhai newidiadau i anheddau a fyddai fel arall yn awtomatig yn ‘ddatblygu a ganiateir’ dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 a heb fod angen caniatâd cynllunio. Defnyddir y rheoli cynllunio ychwanegol hwn lle byddai bygythiad i gymeriad ardal o bwysigrwydd cydnabyddedig.

4.3.2 Mae'r broses ar gyfer cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) yn mynnu bod rhaid, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl i’r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) gael ei gyhoeddi, roi rhybudd o’r Cyfarwyddyd mewn papur newydd lleol ac yn uniongyrchol i berchnogion/breswylwyr yr eiddo a gwmpesir gan y Cyfarwyddyd. Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn effeithiol cyn gynted ag y bo’r hysbysiad yn cael ei gyflwyno neu ei gyhoeddi. Fodd bynnag, mae'n dod i ben ar ôl chwe mis oni bai fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi penderfynu ymlaen llaw i barhau â'r rhybudd. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw mae'n rhaid i'r Awdurdod gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a dderbyniwyd o ganlyniad i rybudd cyhoeddus, yn enwedig sylwadau gan unrhyw breswylwyr a pherchnogion o fewn yr ardal a gwmpesir gan y Cyfarwyddyd. Dylid nodi mai dim ond ar gyfer anheddau ac nid eiddo masnachol, mae Cyfarwyddyd o'r fath yn berthnasol, gan nad oes gan ddefnydd masnachol yr un hawliau datblygu ag eiddo preswyl. Mae angen caniatad adeilad rhestredig ar

gyfer adeiladau rhestredig ble byddai dymchwel, addasu neu adeiladu estyniad yn effeithio ar ddiddordeb arbennig yr adeilad.

4.3.3 Ym mis Chwefror 2016 cadarnhawyd Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer datblygu preswyl o fewn Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun. Mae eitemau o waith y mae caniatâd cynllunio yn ofynnol ar eu cyfer yn cynnwys:

- Newidiadau i neu ddymchwel waliau ffin flaen;
- Darparu llawr caled mewn gerddi blaen;
- Ymwatyn, gwella, ailosod neu newid drychiadau sy'n wynebu'r stryd, gan gynnwys newidiadau i ddrysau allanol, ffenestri a phortshys;
- Newidiadau i doeon;
- Newid neu gael gwared o simneiau a photiau;
- Gosod dysglau lloeren; erialau teledu ac offer ynni adnewyddol
- Adeiladu portshys ac estyniadau ochr; a
- Peintio rendr a gorffeniadau eraill

4.3.4 Mae effeithiolrwydd Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn gofyn am arolwg ffotograffig fel gwaelodlin ar gyfer cyflwr hysbys yr eiddo. Rhaid i hwn gael ei ddiweddaru o leiaf bob tair blynedd gan mai dim ond yn erbyn tystiolaeth o newidiadau heb eu hawdurdodi sydd wedi'u gwneud o fewn y pedair blynedd flaenorol y gellir cymryd camau gorfodi.

Mae cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn fwy tebygol o fod yn effeithiol os yw'r canlynol yn digwydd:

- Bod yna gofnod ffotograffig dyddiedig o'r eiddo perthnasol at ddibenion tracio unrhyw newidiadau dilynol;
- Bod canllawiau'n cael eu darparu ar gyfer perchenogion cartrefi ynghylch sut mae'r cyfarwyddyd yn effeithio arnynt, gyda chyngor am atgyweirio a newid priodol;
- Bod yr awdurdod lleol yn ymgymryd â monitro rheolaidd ar gyfer

cydymffurfiaeth a gorfodaeth briodol;

- Bod yr angen am y cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei adolygu os bydd amgylchiadau'n newid

**4.4 Monitro a Gorfodi:**

4.4.1 Bydd gofyn bod monitro ac adolygu rheolaidd o Werthusiad Cymeriad a Chynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth er mwyn cwmpasu newidiadau datblygu ac unrhyw flaenoriaethau a chynigion newydd. Gallai arolwg ffotograffig newydd o'r Ardal Gadwraeth, wedi'i ddyddio, fod yn offeryn allweddol i fonitro newidiadau. Bydd diweddariadau rheolaidd, wedi'u seilio ar wybodaeth am Gynllunio /Adeiladau Rhestredig / GCC nodi'r mwyafrif o newidiadau datblygu. Bydd ymchwil hanesyddol pellach o'r Ardal Gadwraeth yn fuddiol. Gellir defnyddio mapiau hanesyddol, lluniadau, paentiadau neu ysgythriadau a'r nifer trawiadol o hen ffotograffau yn sail wybodaeth ar gyfer adnewyddu manwl gywir o eiddo a threfluniau treftadaeth. Nodir darpariaethau ar gyfer monitro ac adolygu yn Rhan 2.

**4.5 Deall Cadwraeth**

4.5.1 Mae gwybodaeth a dealltwriaeth leol yn gwbl ganolog i reolaeth hirdymor, sy'n seiliedig ar gadwraeth. Mae Cyngor Sir Penfro yn awyddus i sicrhau bod:

- sgiliau cadwraeth priodol ar gael yn yr awdurdod a'r gymuned;
- ymwybyddiaeth a dealltwriaeth briodol o werth ardaloedd cadwraeth;
- safonau cadwraeth yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau diogelu a gwella; a
- bod perchnogion yn deall eu cyfrifoldebau.

Gall yr amcanion hyn gael eu cwrdd drwy ystod o ganllawiau a rhannu gwybodaeth.

**4.6 Anghenion Adnoddau**

4.6.1 Bydd angen cyllid cyfalaf ychwanegol er mwyn sicrhau safonau treftadaeth priodol ar gyfer gwariant cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd adeiledig. Yn gyffredinol mae camau gweithredu a chanlyniadau bwriadedig yn fwy tebygol o gael eu gweithredu pan ddarperir cymorth grant. Bydd cyfleoedd ar gyfer cyllido yn parhau i gael eu harchwilio a'u hymchwilio drwy weithio mewn partneriaeth gyda meysydd gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill.

4.6.2 Bydd gwarchodaeth barhaus o'r Ardal Gadwraeth, sy'n addas i'w chyd-destun treftadaeth, yn gofyn am ragor o ganllawiau polisi a chanllawiau technegol manwl. Mae angen penodol am ganllawiau ychwanegol ynghylch egwyddorion allweddol,

gydag enghreifftiau o arfer dda'n cael eu nodi, gan gynnwys gorffeniadau addas, offer trin dŵr glaw, a thriniaethau ffenestri a drysau. Bydd hyn yn annog atgyweirio, amnewid a deunyddiau addas.

### 4.7 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

4.7.1 Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol neu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn rhan bwysig o ymrwymiad y Cyngor i hybu cyfle cyfartal i'r holl ddinasyddion. Mae angen i'r Cyngor ystyried amrywiaeth wrth ddatblygu, cyflenwi ac adolygu polisïau a gwasanaethau er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion ein dinasyddion i gyd. Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn darparu proses systematig o wneud hyn ac felly byddant yn helpu i wella cyflenwi gwasanaethau ac arfer cyflogaeth. Bydd angen Asesiad Effaith ar gyfer gweithredu unrhyw un o'r polisïau arfaethedig ar gyfer rheoli'r Ardal Gadwraeth.

### 4.8 Cynaliadwyedd

4.8.1 Yn aml mae adnewyddu ac ailddefnyddio adeiladau presennol yn fwy cynaliadwy na dechrau o'r dechrau gyda safle wedi'i glirio, ac mae'n fwy tebygol o gael llai o effaith ar yr amgylchedd. Mae angen rhoi sylw i gwrdd â gofynion Bioamrywiaeth.

4.8.2 Er bod adeiladau sydd yn Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun wedi'u heithrio o gwrdd â gofynion rheoliadau adeiladu ynghylch effeithlonrwydd egni, gellir gwella'r ffactorau hyn heb dynnu oddi ar gymeriad yr adeilad neu'r ardal gadwraeth yn ei chyfanrwydd. Mae meysydd lle gellir gwella effeithlonrwydd amgylcheddol ac effeithlonrwydd egni gydag adeiladau hanesyddol yn cynnwys:

- ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol mewn adnewyddiadau hanesyddol drwy ddylunio priodol;
- Gwelliannau effaith isel i aerdynnrwydd gan ddefnyddio offer atal drafft a llenni trwm o amgylch ffenestri a drysau, blocio simneiau segur a defnyddio gwydr eilaidd neu, er enghraifft, Histoglass – gwydr dwbl tenau (10mm) wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer ei osod i mewn i fframiau pren a metel sydd yno eisoes, heb newid mân fanylion y barrau gwydr;
- lle mae'n briodol, defnyddio technoleg egni adnewyddadwy;
- defnyddio paentiau, farneisiau a gorffeniadau eraill sy'n seiliedig ar ddŵr neu olew naturiol; mae hyn yn rhoi buddion iechyd a buddion cadwraethol;

- adnewyddu yn hytrach nag amnewid nodweddion hanesyddol;
- Defnyddio defnyddiau ynysu naturiol sy'n anadlu ac yn osgoi cynnydd lleithder;defnyddio cyflenwad lleol o lafur a deunyddiau;
- cyfyngu ar wastraff drwy ailddefnyddio deunyddiau, fel llechi, brics a phren; a
- Gweithio gyda thîm bioamrywiaeth mewnol Cyngor Sir Penfro i annog dull gwybodus a chadarnhaol o weithio gyda bywyd gwyllt i sicrhau bod pob project yn yr ardal gadwraeth yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ynghylch gwarchod bywyd gwyllt.

4.8.3 Mae cyhoeddiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri, *Planning Greener Heritage Projects*, Chwefror 2009, yn cynnwys canllawiau a gwybodaeth am amrywiaeth eang o agweddau ar gynaliadwyedd mewn perthynas ag adeiladau treftadaeth a darparu adeiladau newydd o fewn cyd-destun treftadaeth. Mae'r wybodaeth yn ymdrin â thestunau megis:

- Effeithlonrwydd egni;
- Egni adnewyddadwy;
- Dŵr;
- Deunyddiau adeiladu;
- Gwastraff adeiladu;
- Pridd, gan gynnwys mawn;
- Pren;
- Bioamrywiaeth; a
- Cludiant ymwelwyr.

4.8.4 Gall effeithlonrwydd ynni leihau biliau, lleihau'r defnydd o danwydd ffosil a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Yn gyffredinol, fodd bynnag, adeiladwyd adeiladau hanesyddol i anadlu ac maent wedi'u gwneud o ddeunyddiau all gael eu difrodi gan ddulliau modern, neu bydd y cymeriad yn newid yn sylweddol. Mae adnewyddu adeilad yn rhoi'r cyfle i wella effeithlonrwydd ynni. Dylid trafod gyda'r Cyngor Sir unrhyw fesurau fydd yn effeithio ar adeiladau rhestredig neu rai o fewn ardal Cyfarwyddyd Erthygl 4.

4.8.5 Mewn egwyddor dylai'r mesurau effeithlonrwydd ynni wneud cyn lleied o newidiadau â phosibl. Dylai'r deunyddiau a'r dulliau fod yn debyg i wead traddodiadol yr adeilad. Gall dylunio gofalus a rheoli sympathetig helpu i ddiogelu dyfodol cynaliadwy ar gyfer adeiladau hanesyddol.

# 5. Rhaglen Weithredu

## 5.1 Adnoddau ar gyfer gweithredu yn yr Ardal Gadwraeth

5.1.1 Bydd Cyngor Sir Penfro (CSP) yn monitro ac yn adolygu'r adnoddau sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal yr amgylchedd hanesyddol a rheoli'r Ardal Gadwraeth. Lle mae cyllid priodol ar gael, bydd CSP yn cydlynu gwaith o'r fath gyda'r holl asiantaethau sydd ynghlwm â hyn er mwyn cyflawni'r nodau treftadaeth ac i sicrhau effaith fuddiol dull, wedi'i arwain gan gadwraeth, o ymdrin â datblygu economaidd ac adfywio.

5.1.2 Mae rheoli a mewnbwn sgiliau amserol gan yr holl asiantaethau sy'n gweithio yn yr Ardal Gadwraeth yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r rhaglen, sicrhau monitro a gorfodi effeithiol, paratoi canllawiau technegol a hysbysu'r gymuned. Bydd angen cyllid cyfalaf ychwanegol i sicrhau safonau treftadaeth priodol ar gyfer gwariant cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd adeiledig. Mae llawer o'r camau gweithredu a chanlyniadau bwriadedig hyn yn fwy tebygol o gael eu gweithredu pan ddarperir cymorth grant a bydd cyfleoedd ar gyfer cyllido yn parhau i gael eu harchwilio a'u hymchwilio drwy bartneriaeth â meysydd gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill.

## 5.2 Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu

5.2.1 Nodir y camau gweithredu canlynol ar gyfer gweithredu buan i hybu'r ymwybyddiaeth o gadwraeth a chyflawniadau cadwraeth yn Ardal Gadwraeth Cwm Abergwaun:

**Polisi a Strategaeth Cynllunio**:

- Cyngor Sir Penfro i fabwysiadu'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth

**Cyfranogiad y gymuned:**

- Hyfforddi a Datblygu Staff Cadwraeth;
- Cynyddu ymwybyddiaeth gadwraethol;
- Datblygu gwefan Gadwraeth CSP;
- Sicrhau bod y Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth ar gael yn lleol.

**Mesurau Cynllunio:**

- Cwblhau fersiwn terfynol o'r Rhestr Leol ddrafft i fod yn sail wybodaeth i'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd;
- Gweithredu Strategaeth Adeiladau mewn Perygl ar gyfer yr Adeiladau Rhestredig hynny sydd mewn perygl neu dan fygythiad; a
- Nodi Ardaloedd sy'n Sensitif yn Archeolegol.

**Fframwaith ar gyfer Safonau Dylunio:**

- Paratoi rhaglen ar gyfer paratoi nodiadau canllawiau cynllunio ychwanegol ar faterion cadwraethol;
- Sicrhau bod cyfleoedd am fesurau gorfodi, a'u pwysigrwydd, yn cael eu deall a'u gweithredu ledled Cyngor Sir Penfro;
- Hyrwyddo Nodiadau Canllawiau Cynllunio a 'Cynnal a Chadw!' Cadw ar y wefan; a
- Paratoi briffiau datblygu sy'n benodol i safle, lle mae'n briodol.

## Monitro

5.2.2 Dylai cynnydd gyda gweithredu argymhellion y Cynllun Gwerthuso Cymeriad a Rheoli Ardal Gadwraeth gael ei fonitro a'i gofnodi.

## Adolygiad Ffurfiol

5.2.3 Dylid adolygu'r ddogfen hon bob pum mlynedd oddi o ddyddiad ei mabwysiadu'n ffurfiol. Bydd angen ei hasesu yn erbyn Deddfwriaeth, a pholisi cenedlaethol a lleol sy'n weithredol adeg yr Adolygiad. Dylai'r adolygu gwmpasu'r canlynol:

- Arolwg o'r Ardal Gadwraeth gan gynnwys arolwg ffotograffig llawn i gynorthwyo camau gorfodi posibl;
- Asesu i ba raddau mae argymhellion wedi cael eu gweithredu, a pha mor llwyddiannus y bu hyn;
- Nodi unrhyw faterion newydd y mae angen ymdrin â nhw, sy'n gofyn am weithredu pellach neu welliannau;

- Llunio adroddiad cryno yn manylu ar ganfyddiadau'r arolwg ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen; a
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu.